

# ECO'R WYDDFA

RHIF 280

GORFFENAF 2001

PRIS 40c

## Tlws yr Eco

Cic gyntaf 5.35pm. Chwib olaf 9.40pm a rhwng hynny noson hynod lwyddiannus unwaith eto.

Yn y gystadleuaeth dan 9 a dan 11 daeth 7 tîm i gystadlu. Gyda phawb yn chwarae 6 gêm roedd hi'n noson gystadluol iawn. Mae'r arwyddion o hyfforddi pwrpasol yn nodweddu'r gystadleuaeth erbyn hyn a safon uchel o basio a thrin pêl. Yn anffodus, gyda'r goliau 'bach'

mae nifer y goliau yn prinhaus. Mae haelioni noddwyr lleol hefyd yn amlwg gyda sawl tîm mewn gwisgoedd lliwgar iawn. Diolch am gefnogaeth y noddwyr.


O dan 9 cafwyd sawl gêm dda, gyda thimau Deiniolen Celts, Llanberis a Llanrug 'A' yn geffylau blaen. Yn y gêm dyngedfennol curodd y Celtiaid y Darans, ac felly Llanbabs yn erbyn Llanrug oedd yn y ffeinal. Gêm llawn cyffro a gafwyd, gyda gôl-geidwad y ddau dîm yn disgleirio. Gôl Iwan Owen i Ddeiniolen wahanodd y ddau dîm. Y tlws dan 9 felly yn mynd i Ddeiniolen am y tro cyntaf.

Yn yr oedran dan 11 cafwyd mwy o goliau, ac eto rhaid canmol y safon. Eto roedd tri tîm ar y blaen, Llanrug 'A', Bethel Glas a Deiniolen. Wedi'r gemau grŵp, gwahaniaeth goliau yn unig oedd yn gwahanu Deiniolen a Gleision Bethel. Deiniolen v Llanrug eto yn y ffeinal yma. A oedd y dwbwl yn bosibl? Cafwyd gêm wych a gôl-geidwad Llanrug ar ei orau. Dim goliau, felly y cyntaf i sgorio fyddai'r buddugwr. Yna'n greulon, a'r bêl yn tasgu o gwmpas ceg y gôl, fe drawodd un o amddiffynwyr Llanrug ac i'r gôl. Y dwbwl i Ddeiniolen a'r boddhad yn amlwg. Ai dyma wreiddiau ail gyfnod llewyrchus i fois Y Bwthyn? Gobeithio, yn sicr mae'r deunydd crai a'r gefnogaeth yna.

Gyda llaw, nid cystadleuaeth ceiniog a dimai yw hon. Trwy'r noson cafwyd dyfarnu gwych gan Maldwyn Williams, yn ei

*parhad ar y dudalen gefn*

## 'Convoy of Hope'



*Gwilym gydag un o blant lleiaf cartref 'Hope and Home' yn nhref Lipick yng nghanol Croatia.*

Yn ystod mis Ebrill a Mai eleni cymerodd Gwilym Roberts, gynt o 15 Maes Padarn, Llanberis ran flaenllaw yn nhrif gwirfoddol a dyngarol 'Convoy of Hope' o Gaerdydd i Croatia yng ngwlad Iwgoslafia gynt.

Sefydlwyd yr elusen gyda'r bwriad o fwydo plant a phobl sy'n byw mewn cartrefi lloches ac ysbytai arbennig y wlad yn dilyn y rhyfel cartref yn ystod y degawd diwethaf. Yn dilyn llwyddiant trip y flwyddyn cynt aed ati i drefnu taith i 5 lori i rannau mwyaf peryglus y wlad, i'r de o Petrinjia. Bwriad y trip eleni oedd rhoi cymorth pwysig i gleifion a phlant amddifad mewn rhannau tlawd o'r wlad, ac yn arbennig blant ac oedolion â nam meddyliol.


Ynghlwm yn y daith oedd bwriad hefyd i roi cymorth a manteisio ar wasanaeth arbennig therapyddion galwedigaethol i rai ysbytai. Yn ystod y daith roedd rhaid dreifio'r loriau yn llawn bwyd,

dillad, blancedi, meddyg-iniaethau, cyfarpar meddygol a theganau i 5 cartref arbennig ac ysbyty.

Anodd iawn yw dychmygu'r croeso ar ôl cyrraedd, ac anodd iawn yw i ni dychmygu'r fath dlodi a dioddefaint. Mewn un ysbyty nid oedd ond un sach o flawd ar ôl yn y gegin i fwydo 70 o blant.

Ar ôl dreifio dros 3500 o filltiroedd ac yn ôl llwyddiant y trip, hoffai Gwilym ddiolch o galon eto eleni i'r teulu, ffrindiau a chymdogion yn ardal Llanberis am eu haelioni parod a'u cyfarchion. Hoffai ddiolch yn arbennig i Glwb y Mamau Llanberis a Chôr Merched Lleisiau Lliwedd.

## Llwyddiant Ffotograffig



*Elan Mererid Rhys, Tyddyn Andrew Uchaf, Bethel a ddaeth yn gyntaf yng Ngŵyl Genedlaethol yr Urdd am Ffotograffiaeth dan 15.*

**Daw'r Eco nesaf o'r Wasg ar Fedi 6.  
Mae angen pob deunydd i law'r golygyddion  
erbyn Awst 27.**



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 280  
GORFFENAF**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn.

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### Golygyddol:

**JOHN PRITCHARD**  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872390

**IWAN ROBERTS**  
LLEIFIOR, LLANRUG  
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:  
**ARWEL JONES**  
CAE EBONI, PENISARWAUN  
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**  
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**  
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd  
Glanffynnon, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**  
Jean Jones, Cesail y Mynydd,  
Deiniolen (871550)

**TRERFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**  
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,  
Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**  
Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650788)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DEINIOLEN:** W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts,  
Becws Eryri (870491)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn  
(675384)

**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant  
Ffynnon (871820)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth  
(872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon,  
Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS LUN, AWST 27**  
Os gwelwch yn dda  
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, MEDI 6**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

## Llythyrau

Allt Riwith  
Llanrug  
11.06.01

Annwyl Olygydd,

Wedi darllen yr ysgrif am  
'Niwed i'r Gymraeg' yn rhifyn  
Mehefin cofiais am yr arwydd  
isod a oedd mewn maes parcio  
yng Nghyffordd Llandudno:

'Talwch y ffi yn y swyddfa  
docynnau os gwelwch yndda.'

Gobeithio nad oes angen  
egluro i GYMRY fod nifer o  
wallau yn taro rhywun yn yr  
arwydd hwn. Mae fy mab, sydd  
yn ymchwilio i gyflwr yr iaith  
mewn trafndiaeth a masnach,  
yn dweud wrthyf fod trosiadau  
o'r math chwithig yma yn  
gyffredinol, a'i honiad ydyw, os  
na fydd cywirdebau, y bydd y  
ffurfiau yma yn cael eu  
trosgwlyddo o un genhedlaeth  
i'r llall ac yn cael eu meithrin,  
eu dysgu a'u defnyddio. Mae'n  
dweud hefyd fod yr anystyriaeth  
yma yn cystadlu yn glos hefo  
effaith twristiaeth ar ddirywiad  
yr iaith Gymraeg.

Nid oes dichon cael at wraidd  
y drwg er holi'r cwmniau. Ond  
yn amlwg gwaith ieithyddwyr  
anghymwysiedig a chyfieithwyr  
amhroffesiynol yw'r gwallau;  
segur swyddwyr mwg i sachau  
sydd wedi ymddangos fel  
madarch ym Medi, sydd wedi  
canfod mai diwydiant bellach  
yw'r busnes cyfieithu a'i fod yn  
un proffidiol iawn. Ond byddaf  
yn credu yn aml fod y gwallau  
yma yn fwriadol i wneud niwed:  
rhyw ffurf gyfoes o'r Welsh Not  
heb y goler bren.

Yn ychwanegol, mae  
twristiaeth yn andwyol i'r iaith,  
yn enwedig o fewn perthynas i'r

canolfannau adloniant sydd ar  
restr y cynllwynwyr. Pa ddiben  
gofyn i ddyn o Fanceinion 'Wyt  
ti isio dau wy i frecwast?' Mae o  
wedi arfer cael ei anghenion  
bedair awr ar hugain y dydd,  
bob dydd yn ei uniaith, ac yn  
disgwyl y fraint honno ble  
bynnag yr â. A does ganddon ni  
i gyd ddim o weledigaeth nac  
eofndra Seimon Glyn. Y gorau a  
allwn ni ei wneud yw ymson ar  
eiriau Elis Wynn o'r Las Ynys  
Fawr:

'A ddarlleno ystyried,  
A ystyrio cofied,  
A gofio gwnaed,  
A wnel parhaed.

Cofio un peth mai ymwelwyr  
heddiw yw trigianydd yfory.

Beth ddywedai o tybed am  
gyflwr ei wlad erbyn hyn?

Yn gywir  
John E. Williams

*Aduniad Ysgol Botwnnog, Llŷn*

Annwyl Ddarllenwyr,

Yn ôl yr arfer pan ddaw'r  
Eisteddfod Genedlaethol i'r  
gogledd trefnir aduniad 'Hen  
Ysgol Hogia Llŷn'. Eleni cawn  
gyfarfod yng Ngwesty Melin  
Brwcws ar gyrion tref Dinbych,  
ar y briffordd tuag at Rhuthun,  
dafliad carreg o faes y Brifwyl. Y  
mae ystafell wedi ei neilltuo  
rhwng 11 a 2 o'r gloch ar ddydd  
Iau, Awst 9 a bydd cinio bwffe  
yn ein disgwyl.

Gellir cael tocynnau am £10  
yr un oddi wrth Edgar O.  
Williams, Llŷn, Llansannan,  
Dinbych LL16 5HQ rhwng hyn  
a'r dydd olaf o Orffennaf.

Edrychwn ymlaen at aduniad  
difyr yng nghwmni hen  
gyfeillion eto eleni.

Yn ddiffuant

Catherine Williams  
Edgar O. Williams  
Trefnwyr yr Aduniad

Y Rhifyn nesaf  
fydd rhifyn Medi.  
Holl ddeunudd  
golygyddol i law  
erbyn Awst 27ain  
os gwelwch yn dda.

## IEUAN WILLIAMS

Glanffwrdd  
DEINIOLEN  
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i  
bensynwyr, myfyrwyr a  
phlant ysgol

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnio  
**MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc

## Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer  
**PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac  
ACHLYSURON ARBENNIG**

**CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a  
PHWYLLGORAU**

**BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL**

Ffôn: (01286) 870253

**CHIROPDIST**  
Gwasanaeth  
yn eich cartref

**E. Ll. Parry**  
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon  
**LLANRUG**  
Ffôn:  
(01286) 675754



## Ymddeoliad Mrs Mattie Hughes fel Arweinydd Parti Lleisiau Lliwedd ardal Llanberis



*Ymddiheurwn am orfod defnyddio hen lun o'r parti a Mrs Mattie Hughes – Gol*

Gyda thristwch y derbyniwyd ymddeoliad Mrs Mattie Hughes fel Arweinydd 'Parti Lleisiau Lliwedd'. Bu rhaid iddi roi i fyny dros dro pan aeth yn wael yn ystod y Nadolig ond teimlai erbyn hyn, er mwyn ei hiechyd, mai rhoi'r gorau iddo yn gyfangwbl fyddai orau.

Dymunai fynd yn dawel, heb ffys, felly ni chafwyd 'noson allan' i werthfawrogi yr ymroddiad a'r gwaith da a wnaeth gyda'r côr am dros y tair mlynedd ar ddeeg diwethaf. Bu llawer o fynd a dod yn y parti ac mae rhai annwyl wedi ein gadael, gwaetha'r modd.

Gwahoddwyd Mattie i festri Capel Coch ar noson ymarfer y parti nos Iau, Mehefin 7 pryd y cafwyd paned a dateithion wedi eu paratoi gan Gareth.

Anrhegwyd Mattie gyda chadwyn a chroes aur a basged o flodau ar ran y parti gan Helen Sharp a Dilys Mai Roberts. Dymunwyd gwellhad llwyr iddi a phleser i fwynhau ei diddordebau eraill. Ond

addawodd y buasai yn cadw cysylltiad clos â'r parti yn eu gweithgareddau a'u cyngherddau. Diolch Mattie a phob bendith.

Mr Gareth Jones, y cyfeilydd, gymerodd drosodd i arwain y parti yn ystod gwaeledd Mattie.

Cafwyd cyngerdd ar Fawrth 1 yn festri Capel Coch a chyflwynwyd yr elw o £200 i Adran Gofal y Galon yn Ysbyty Gwynedd lle bu Mattie yn glaf. Hefyd aethpwyd i Westy Victoria, Llanberis i ddiddori'r ymwelwyr. Ac, yn ddiweddar anfonwyd £100 i 'Apel Tecsas Charlotte Speedy'.

Gydag ychydig o berswâd mae Gareth wedi cytuno i gymryd yr awenau a gobeithio y bydd y parti yn mynd o nerth i nerth dan ei ofal.

Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno, bydd y parti yn ymarfer bob nos Iau am 7.30 o'r gloch yn brydlon yn festri Capel Coch, Llanberis. Am ragor o fanylion rhowch ganiad i'r ysgrifennydd ar (01286) 871758. Diolch yn fawr.

## Cefnogwch ein Hysbysebwr

### CRONFA GOFFA R.H.OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp â chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd.

**John H. Hughes**

Tan y Clogwyn

Llanberis. Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 2001.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

## Canmoliaeth Uchel i Ysgol Brynrefail gan Arolygwyr

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Brynrefail rhwng 26 a 30 Mawrth eleni. Fe'i cynhaliwyd gan dim annibynnol o 16 o arolygwyr. Roedd yn ofynnol i'r tîm gyflwyno adroddiad ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg, effeithlonrwydd defnyddio adnoddau ariannol a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Cafwyd canmoliaeth uchel i waith yr ysgol. Dyma rai o brif sylwadau'r arolygwyr:

- Mae Ysgol Brynrefail yn ysgol dda gyda nifer o gryfderau.
- Mae ethos da iawn yn yr ysgol a gwerthoedd cadarn.
- Mae safonau cyflawniad disgyblion yn dda yn y mwyafrif llethol o'r pynciau ym mhob cyfnod allweddol.
- Un o gryfderau pennaf yr ysgol yw ansawdd yr addysgu

– mae'n dda neu well ym mhob pwnc ym mhob cyfnod allweddol.

- Mae ymddygiad, gwerthoedd moesol a datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda iawn.

Dyweddodd Prifathro'r Ysgol, Eifion Jones:

*'Rwyf yn falch iawn bod gwaith caled a chydwybodol pawb sydd ynghlwm â'r ysgol a'i chymuned wedi cael ei gydnabod yn gyhoeddus, yn enwedig gwaith holl staff a disgyblion yr ysgol.'*

Croesawyd yr adroddiad gan Gadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol, Rolant Wynne o Lanrug: *'Mae'r Corff Llywodraethol yn hynod o falch o dderbyn Adroddiad mor ganmoliaethus ar waith a bywyd yr ysgol. Dymunant longyfarch y staff a'r disgyblion fel ei gilydd a diolch i aelodau'r Tîm Rheoli am yr arweiniad cadarn wrth baratoi ar gyfer yr Arolygiad.'*

## Diolch am Gamera

Mae Ysgol Brynrefail wedi rhoi rhodd i'r Eco o Gamera Digidol newydd. Fe hysbyswyd Swyddogion y papur o'r rhodd arbennig yma gan Mr Eifion Jones, Prifathro'r ysgol yn y Cyfarfod Blyneddol diweddar. Fe hoffai pawb sy'n gysylltiedig â'r Eco fynegi eu diolch i'r ysgol am y Camera fydd yn galluogi'r Eco i ddatblygu'n sylweddol fel papur bro.

## Elin an Abseilio



*Roedd Elin Jones o'r Waunfawr yn un o nifer o bobl ddewr a fu'n abseilio i lawr ochr Tŵr Marcwis, Llanfairpwll er mwyn codi arian i gynorthwyo plant byddar yng ngogledd Cymru.*

## BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD  
AC AIL LAW

- TRWSIO • CYNNAL
- PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723



# CHWILOTA

## CLEFYD Y MOCH A CHLWY TRAED A'R GENAU



Yn rhifyn Mai o'r 'Eco' crybwyllais ddau o ffermwyr o'r fro a ddirwywyd am symud anifeiliaid yn 1898 mewn achosion o glefyd y moch. Un ohonynt oedd John Williams, Ynys'ceurn, Llanddeiniolen. Aeth Mrs Sarah Kelly o Benrhosgarnedd, Bangor ati i chwilota hanes y gŵr hwn, ac i anfon peth o hanes y fferm i mi. Yno y cafodd ei magu.

Yn ôl cyfrifiad 1891 mae'n ymddangos fod dwy fferm fechan yn Ynys Cheurn, un o 26 erw a'r llall o 21 erw. Yn y lleiaf o'r ddwy fferm roedd John Williams yn byw, a'i rieni a'u rhieni hwythau cyn hynny. Yn 1891 roedd John Williams yn 43 mlwydd oed, ac yn disgrifio'i hun fel y penteulu. Roedd yn ddibriod, ac yn rhannu'r cartref efo dau o'i frodyr ac un chwaer, i gyd yn eu tridegau ac i gyd yn ddibriod.

Mrs Kelly sy'n parhau â'r stori: *Arferai fy nhad, oedd yn llanc deunaw oed yn niwedd y 1890'au, sôn am y ddwy fferm, ac am y brodyr. Ni wn pryd yr aethant oddi yno, nac ychwaith pryd yr unwyd y ddwy fferm gan Stâd y Faenol. Pan ddigwyddodd hynny, chwalwyd y ddau dŷ bychan ac adeiladu un tŷ newydd, gweddol helaeth. Cyfyngwyd y fferm i 30 erw, gan drosglwyddo'r gweddill o'r tir i fferm Tŷ Mawr.*

Byddai'r teulu bob amser yn dweud fod y 'maes mawr' (sef y darn tir a drosglwyddwyd i fferm Tŷ Mawr) yn perthyn i Ynys Cheurn.

Yn dilyn y John Williams gwreiddiol (a'i frodyr a'i chwaer), daeth tenantiaeth y fferm i John Parry, gŵr o Fôn. Yna, yn Ionawr 1914 daeth y denantiaeth i feddiant John Morris Williams (tad Mrs Kelly), a pharhaodd felly hyd ei farwolaeth yn 1951 pryd y

trosglwyddwyd hi i'w weddw. Yn 1963 dechreuodd Stâd y Faenol werthu y mwyafrif o'i heiddo. Rhannwyd tir Ynys Cheurn rhwng y ddwy fferm gyfagos, a dyna ddiwedd ar ei bodolaeth fel fferm.

Cyn cau pen y mwdwl ar hanes y fferm, mae gan Mrs Kelly un gyffes ar ran ei thad - *'bu iddo yntau hefyd, fel y John Williams arall, dorri'r gyfraith ynglŷn â'i anifeiliaid. Yng nghanol tridegau'r ganrif ddiwethaf, pan oedd amgylchiadau'n galed iawn ar ffermwyr, a phan oedd colli cyw iâr yn drychineb bron, sylwodd fy nhad bod un o'r lloï wedi ei daro efo'r hyn a ofnai oedd yn glwy traed a'r genau. Dweud dim wrth neb, ond golchi briwiau'r creadur efo dŵr a halen a'i roi mewn llecyn ar lan afon Cegin ymhell oddi wrth yr anifeiliaid eraill; ac o olwg pobl, wrth gwrs. Bu golchi cyson ar y beudai a'r iard efo dŵr a halen cryf, ac o drugaredd, fe drechwyd yr aflwydd cyn iddo gael gafael yn yr un anifail arall. Ymhen hir a hwyr daeth y llo ato'i hun. Osgôdd fy nhad orfod difetha'i anifeiliaid i gyd a'r ddirwy sicr a ddaethai i'w ran am guddio'r afiechyd oddi wrth yr awdurdodau.'*

Bu John Williams yr ail yn dipyn mwy ffodus gyda'i lo na'r John Williams cynharach gyda'i fochyn!

Mae Mrs Kelly hefyd yn crybwyll cysylltiad rhwng y fferm ac Eglwys Llanddeiniolen, ystyr yr enw, a pheth o hanes Ynys Cheurn bach, bwthyn arall gerllaw'r fferm. Mwy am y rheini y tro nesaf gobeithio.

### Llysiâu Bendithiol.

Un ymateb yn unig a fu i'r cais am wybodaeth ynglŷn â'r rysait i wneud enaint i wella cymalau rhag oerfel. Cefais alwad ffôn gan Mrs Alfona Jones o Brestatyn (o'r Waunfawr yn

wreiddiol) yn dweud fod llyfr cyffelyb i'r Llysieulyfr Teuluaid yn ei meddiant. Mae'r llyfr sydd ganddi hi yn ail argraffiad (dim dyddiad), yn cynnwys mwy o luniau lliw (120 o'u cymharu â 70 yn y gwreiddiol) ac ail ran wedi ei rwymo gyda'r gwreiddiol. Mae'r ail ran yn gyhoeddiad dan yr enw 'Llysieuaeth Feddygol' a'r awdur oedd Thomas Parry, Glanygors, Tregarth. Mae'n ymddangos fod yr awdur yn berthynas i David Thomas Jones, sef awdur y llyfr gwreiddiol. Cynnwys yr ail ran *'rinweddau parhaol tua tri chant o lysiau.'* Ar gopi Mrs Jones mae llofnod hen daid iddi, sef Hugh Hughes, Nebo, a'r dyddiad, sef Mehefin 1891. Dywed fod y gyfrol i gyd - Llysieulyfr Teuluaid a Llysieuaeth Feddygol - wedi ei chyhoeddi am hanner pris y gyfrol wreiddiol, a'r cyfan ar faint llyfr poced.

Gan Mrs Jones hefyd y daeth ateb i ran o'r broblem ynglŷn â chynhwysion y ryset. Dail cwrw yw'r enw Cymraeg am 'bay leaf'. Ond does neb wedi cynnig unrhyw sylw am wêr eidion na saim traed defaid.

### O Lanberis a Llanrug i Ganada.

Rhyw fis yn ôl cyfarfyddais â Bill Roberts o Ontario, Canada, a oedd ar ymweliad byr â Chaernarfon i geisio olrhain peth o hanes ei deulu yn yr Archifdy. Rwyf bellach wedi derbyn llythyr ganddo wedi iddo ddychwelyd i Ganada yn gofyn am gymorth i ddarganfod mwy o hanes ei gyndadau. Mae'n ymddangos fod cysylltiadau ganddo ag ardaloedd Llanberis a Llanrug.

Ganwyd taid Bill Roberts yn Llanberis yn 1880. Ei enw oedd

William Morris Roberts. Ymfudodd i Newfoundland yn 1903 i weithio yn y chwareli llechi. Brawd iddo oedd Griffith Brymer Roberts, a anwyd yn Llanberis yn Ionawr 1883. Byddai Bill Roberts yn hoffi gwybod beth yw'r cysylltiad (os oes un) â theulu'r Brymer.

Mae hefyd yn chwilio am hanes teulu ei hen, hen nain, sef Jane Prichard, a briododd Morris Roberts yn 1836 yn eglwys Llanrug. Byddai hefyd yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth ynglŷn â merch o'r enw Ellin Morris (o bosibl o Gwm y Glo) a briododd William Griffith tua 1850. Cred fod y teulu wedi byw am gyfnod yn Tanrallt Goch, Cwm y Glo, ond mae posibilrwydd hefyd iddynt fudo i'r ardal o blwyf Llaniestyn yn Llŷn.

Os oes unrhyw aelodau o'r teuluoedd hyn yn byw yn yr ardal, a fyddech cystal â chysylltu â mi.

### Arddangosfa Garddwriaeth Llanberis.

Ymddiheuriad am yr erthygl y mis diwethaf ynglŷn â'r uchod! Mae'r llun a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf yn dangos y cwpan a enillwyd gan J. J. Williams, Cerrig Llwydion, Dinorwig yn 1892, ac sydd bellach ym meddiant aelodau o'r teulu, sef Mr a Mrs Gordon Jones, Celyn, Deiniolen. Mae'r cwpan dros gant oed.

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r cais am wybodaeth ynglŷn ag enillwyr eraill y cystadleuthau.

Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes lleol.

Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515)

CYNGOR GWYNEDD  
ADRAN ADDYSG, DIWYLLIANT A HAMDDEN

## Adain Diwylliant

Mae angen Staff  
wrth gefn i weithio yn

## Llyfrgelloedd

## Deiniolen a Llanberis

yn ystod gwyliau neu salwch staff parhaol

Tâl: £4.94 yr awr

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â:

Shân Wyn Jones  
Llyfrgellydd Bro Arfon  
Ffordd Gwynedd  
Bangor LL57 1DT

Rhif Ffôn: (01248) 353479

## E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU



## Un funud fach JAMES

Y noson y cyhoeddwyd bod dau lofrudd ifanc James Bulger i gael eu rhyddhau mynnodd un papur newydd ddatgelu lle roeddent yn cael eu cadw yn gynharach y diwrnod hwnnw. Mae'r fath wybodaeth wrth gwrs i fod yn gyfrinachol er mwyn sicrhau na ddaw neb i wybod dim am Jon Venables a Robert Thompson wedi iddynt gael eu traed yn rhydd. Bydd y ddau yn cael enwau a 'chymeriadau' newydd wrth iddynt gamu nôl i'r byd mawr.

Beth bynnag fo barn pobl mae'r dadlau cyfreithiol bellach drosodd a'r ddau i gael eu rhyddhau. Y gobaith yw eu bod wedi sylweddoli erchylltra eu trosedd ac yn annhebygol o drosedd eto. Ond cedwir llygaid barcud ar y ddau er ceisio sicrhau na fyddant yn fygythiad i neb yn eu bywyd newydd.

Ond mae'r dasg hollbwysig o warchod pobl yn dechrau o ddifrif rwan. Bydd angen gwarchod Jon a Robert. A bydd angen gwarchod eraill rhagddynt. A'r un ydi'r ddau beth mae'n debyg. Mae llawer yn feirniadol o'r gwarchod a fydd dros y ddau lofrudd. Ond wrth iddyn nhw gael eu gwarchod bydd pobl eraill yn cael eu hamddiffyn hefyd. Nid yn gymaint eu hamddiffyn rhag Venables a Thompson ond rhagddyn nhw eu hunain.

Gwnaed cymaint o fygythiadau yn eu herbyn dros y blynyddoedd. Ac o gofio'r drosedd ddieflig mae'n hawdd deall yr awydd i ddial arnynt. Ond dyna'r union beth y mae'n rhaid ei atal. Mae yna drefn gyfreithiol ac mae honno wedi ei gweithredu. Nid yw'n berffaith, ac ni fu'n hawdd penderfynu'n derfynol ynglŷn â'r ddau wr ifanc. Mae'n bosibl bod lle i ddadlau eto ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw. Ond nid lle unrhyw unigolyn yw dial, a cheisio niweidio neu hyd yn oed ladd Jon Venables neu Robert Thompson. Mae'n rhaid amddiffyn pobl rhagddyn nhw eu hunain a'u hysfa i ddial, rhag i rywun arall ddifetha ei fywyd ei hun neu bywyd ei deulu o ganlyniad i farwolaeth erchyll James Bulger.

Ac i ryw raddau mae angen amddiffyn pawb ohonom rhag y gwaetha sydd ynom ninnau. Dyna rôl deddfau a chymdeithas ac addysg a chydwybod, a dyna ran o bwrpas y ddysgeidiaeth Gristnogol i'r sawl sy'n ei derbyn a'i dilyn.

JOHN PRITCHARD

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Dymuna Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon Bungalows ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fehefin 12.

DIOLCH. Dymuna Helen Morris, Oakfield ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a ffrindiau, y Parch John Pritchard, Dr Robin Parry a'r staff yn y feddygia am y galwadau ffôn, cardiau, ffrwythau, blodau ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi dod gartref.

GUILD. Cynhaliwyd y Gymdeithas yn Angorfa a chymerwyd y rhan dechreuol gan Mrs Nancy Jones. Yn y gadair roedd Mrs Ann Parry Jones a gyflwynodd y wraig wadd, Mrs Ann Morgan o Fae Penrhyn a adroddodd wrthym ei hanes yn byw a gweithio yn y Dwyrain pell am ugain mlynedd. Diolchwyd iddi hi ac i Mrs Heulwen Lewis a Mrs Margaret Griffiths am y baned ac i Mr Ralph Jones am y raffl. Yr enillydd oedd Mrs Betty Humphreys. Dymunwyd yn dda i Mrs Kathleen Williams ar ei phen-blwydd yn 80 ddydd Mawrth.

PLAS PENGWAITH.

Hoffai pawb yn y Cartref estyn ein cydymdeimlad i Mrs J. Williams a'r teulu, Nant Peris yn eu profedigaeth o golli Mr Arthur Williams a fu yma gyda ni am gyfnod. Diolch yn fawr iawn i chwi fel teulu am eich rhodd garedig i staff y cartref.

Estynnwn ein cydymdeimlad hafyd i deulu Mrs A. Thomas, (Nancy) Deiniolen yn eu profedigaeth annisgwyl a sydyn ddydd Sul, 17 Mehefin. Roedd pawb yma wedi dod i'w hadnabod fel Nancy ac roedd fel petai wedi bod yma gyda ni ers tro. Ond er mai dim ond ers cyfnod byr yr oedd Nancy wedi ymgartrefu yma roedd wedi setlo'n hapus. Rydym ni a phentref Deiniolen wedi colli cymeriad unigryw arall.

Croeso i Mrs N. Jones o Lanrug sydd wedi dod i aros atom am gyfnod.

Ar 13 Gorffennaf fe fu Arwerthiant Dillad yn Iolfa'r Cartref unwaith eto.

Erbyn hyn mae Mrs D. Griffiths,

(Anti Doris) wedi ymgartrefu yng Nghartref Penisarwaun. Mae pawb yma yn dymuno'r gorau iddi yno, fe fydd yn rhyfedd yma hebddi.

Yn dathlu eu pen-blwyddi y mis yma bu Mrs K. Jones, Mrs C. Hughes, Mr D. Whitaker a Mrs E. Parry. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Mae Mr T. Williams yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac mae pawb yn dymuno gwellhad buan iddo. Rydym yn falch o roi croeso'n ôl adref o'r ysbyty i Mrs C. Owen.

Rydym eto eleni yn gobeithio cael Stodin ar gae'r Carnifal. Diolch i'r pwyllgor am hyn a diolch am gefnogaeth pawb a ddaw i'n cefnogi. Bydd yr arian yn mynd i Gronfa Mwynderau'r Trigolion.

CYMORTH CRISTNOGOL. Nos Sul, Mawrth 13 cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol yn festri Capel Coch dan ofal y Parchedigion Philip Hughes a John Pritchard. Cymerwyd rhan gan aelodau eglwysy'r pentref. Yn ystod yr Wythnos gwnaed casgliad o dŷ i dŷ yn Llanberis a Nant Peris. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i'r cyfeillion a fu'n casglu ac i bawb a gyfrannodd at yr Apêl. Cyfanswm y casgliadau o'r ddau bentref oedd £711.23.

CAPEL COCH

TRIP YR YSGOL SUL. Bydd Trip Ysgol Sul Capel Coch ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7. I Gaer y byddwn yn mynd eleni a bydd cyfle i ddewis mynd i'r dre neu i Sŵ Caer. Bydd y bws yn cychwyn am 8.30 y bore. Mae croeso i blant ac oedolion nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul ymuno â ni ar y trip. Ffoniwch 872390 am ragor o fanylion.

CHWARAEON YSGOL SUL. Bu dau dîm o Ysgol Sul Capel Coch yn cystadlu yn Chwaraeon Cenedlaethol yr Ysgolion Sul yn Aberystwyth ddydd Mercher, Mai 30. Daeth bechgyn y tîm pêl-droed cynradd yn bedwerydd a genethod y tîm pêl-rwyd uwchradd yn drydydd yn eu cystadlaethau. Mewn cystadleuaeth arall a drefnwyd ar gyfer yr oedran uwchradd yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Mehefin 16 enillodd y bechgyn yr ornest bêl-droed a daeth y genethod yn ail yn yr ornest bêl-rwyd.

Y GYMANFA. Llongyfarchiadau i'r plant a gafodd eu gwobrwyo yn y Gymanfa a cynhaliwyd yng nghapel Cefnywaun, Deiniolen ddydd Sul, Mai 6: dan 4 - Elliw

Saynor; dan 5 - Elin Tomos, Kimberley Jones a Huw Owen; dan 9 - Heledd Tomos, Llion Jones a Tomos Owen; dan 10 - Sara Jones, Sara Parry ac Alaw Tomos; dan 11 - Tomos Parry.

PÊL-DROED IEUENCTID. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 13 Llanberis am ennill Cwpan Chwarae Teg Cynghrair Gwyrfa eleni trwy guro Waunfawr o 2 gôl i 0 yn y rownd derfynol, a gynhaliwyd yn Y Bontnewydd nos Fercher, Mehefin 13. Diolch yn arbennig i'r rheolwr, Gwilym Evans am ei holl waith trwy'r tymor, a llongyfarchiadau iddo yntau. Yn addas iawn cyflwynwyd y tlysau i'r chwaraewyr gan Mr Thomas John Roberts, Llanberis, Cadeirydd y Cynghrair. Colli fu hanes y tîm dan 15 oed y noson ganlynol yn eu rownd derfynol hwy yn erbyn tîm Y Bontnewydd. Wrth gwrs roedd y ffaith fod Bontnewydd wedi cael chwarae'r gêm ar eu cae eu hunain wedi bod yn fantais fawr iddynt. Tasai'r gêm wedi cael ei chwarae ar gae Llanberis... neu rywle heblaw Bontnewydd... mi fyddai Llanberis wedi... wedi... colli yn ôl pob tebyg, o gofio i ni gael ein curo deirgwaith mewn mis gan dîm y Bont.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, Mehefin 5 cynhaliwyd y cyfarfod misol o'r gangen yn festri Eglwys Sant Padarn. Cymerwyd y gwasanaeth agoriadol gan Mrs Betty Humphreys. Naws y pnawn oedd sesiwn o 'ddod a phrynu' ac fel canlyniad gwnaed elw bach boddhaol. Yn dilyn trafodwyd ychydig o faterion busnes, gan gyfeithio ar y gwasanaeth arbennig a gafwyd yn Eglwys Glanogwen, Bethesda ar Fai 15, a diolchwyd i Mrs Muriel Morris am gario y Faner.

Ar Fai 11 cawsom noson bleserus iawn pan ddaru ni ymuno ac aelodau cangen Cwm-y-glo a Llanrug yng Nghrefftau Cae Coch, Llanberis pan ddangosodd y perchennog Mrs Pat Jones ei medrusrwydd i drefnu blodau.

Pleser mawr oedd cael croesawu Hilda Wyn atom ar ôl peth amser oherwydd gwaeledd. Roedd yr aelodau yn falch iawn o'i gweld yn ôl. Yn ymorol am y lluniaeth ysgafn oedd Mrs Kathleen Williams a Mrs Clara Roberts. Yr un lwcus o ennill y raffl oedd Miss Glenys Parry. Terfynwyd drwy adrodd y Gras.

DIOLCH. Dymuna Buddug Hughes, 5 Minafon ddiolch am y cardiau, anrhegion, arian a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cefnogwch ein  
Hysbysebwy

### GWESTY DOLBADARN LLANBERIS

Nos Wener Gorffennaf 20, 2001  
i ddechrau am 8 o'r gloch

John Ogwen yn cyflwyno

Hogia'r Wyddfa • Elwyn a Gareth  
a chystadleuaeth CARIOCI  
yng nghwmni Ray John

Beirniaid: Annette Bryn Parri a John Ogwen

Y 10 enw cyntaf sy'n cael cystadlu  
BETH AMDANI?

Raffl fawr ar y noson

Tocynnau £4

wrth y drws neu (870277)

Elw at Gôr Meibion Dyffryn Peris a Charnifal Llanberis

### Ysgol Feithrin Deiniolen CYNGERDD MAWREDDOG

Nos Wener, 13 Gorffennaf, 2001 am 7 o'r gloch  
yng Nghapel Ebeneser

yn cymryd rhan:

Plant yr Ysgol Feithrin, Seindorf Ieuenctid Deiniolen, Jenny Lynne ac Arwel, Lyndsey Vaughan, Siân Gibson, Emyr a Martin, Arian, Côr Meibion Dyffryn Peris, Elfed, John Eifion

Pris £2.50; Pensiynwyr: £2.00; Plant £1.00  
o'r Ysgol Feithrin neu ffonio 870034 neu 871524

Elw ar yr Ysgol Feithrin



# O SIAMBAR SELWYN

Mae'n nesu at dymor y ffarfelio i'r hen blant- adeg symud o'r ysgol fach i'r ysgol fawr. Colli cwmni ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd.

Mae'n debyg y ca' i wahoddiad eleni eto i'r cyfarfod ffarfelio yn fy hen ysgol ym Methel, ac mi fydd o, fel arfer, yn gyfarfod diddorol - ond yn gyfarfod dagreul hefyd. Rwy'n hynod o ddiolchgar am y gwahoddiad bob blwyddyn, ac er bod 'na dros drigain mlynedd ers i mi glirio fy nesg yn Ysgol Bethel, mae'r atgofion yn dal yn fyw, ac mae fy nghyddisgyblion oedd gyda mi yno yn prinhaus.

I'r Cownti Sgwyl i Gaernarfon yr aem ni yr adeg honno, doedd 'na ddim cyfle i blant Bethel fynd i Ysgol Brynrefail - a doedd Ysgol Brynrefail ddim yn Llanrug y pryd hwnnw.

Cael mynd i'r ysgol mewn bys yn hytrach na cherdded. Gwneud ffrindiau newydd o bentrefi eraill. Cael chwarae ffwftbol ar gae go iawn. O ia, cael gwersi ar bynciau dieithr fel *Algebra*, *Geometry* a *General Science*, yn ogystal â *French* a *Latin*, a'r cyfan drwy gyfrwng y Saesneg. Oedd roedd o'n fyd gwahanol.

Yn y Cownti Sgwyl y dois i gasau Wil, yn wir fedrwn i mo'i ddoedda fo. Ar *'Ma Bings'* roedd y bai - hi gyflwynodd fi i Wil. Pwy't gebyst oedd *Ma Bings* meddech a phwy oedd y Wil 'ma? Wel, Mrs Bingley, yr athrawes Saesneg oedd 'Ma' a Wil oedd William Shakespeare. Na, doedd Wil a finna fawr o fêts yn nyddiau pell y Cownti Sgwyl.

Ond pam yr atgasedd? Wel, dwi'n dal i glywed *'Ma Bings'* a'i llais bygythiol ar ddiwedd gwrs yn cyhoeddi *'Your homework tonight is... - learn the speech. There will be a test tomorrow.'* Dyna ffordd sicr i fagu atgasedd mewn unrhyw blentyn tuag at farddoniaeth a beirdd - y bygythiad o'r *test tomorrow* 'na.

A dyna sut y dois i gasau Wil.

Ond roedd Wil yn dipyn o foi, ac mi ddois i yn fwy o fêts hefo fo yn ddiweddarach, a chael blas ar ei gwmi o.

Wyddoch chi (o awdur â sgwenodd gymaint) sgwenodd Wil rioed yr un gair o hunangofiant.

Mae 'na rai yn awgrymu fod Wil yn cael clod am waith pobol eraill, gan gynnwys Syr Walter Raleigh (a oedd ynllenor da) a, choeliwch neu beidio, y Frenhines Elisabeth y Cyntaf.

Roedd gan Wil unarddeg o wahanol ffyrdd o sillafu ei enw ac, yn ogystal â bod yn sgrifennwr roedd o hefyd yn actor o fri, a rhaid cofio na chaniateid i ferched actio yn nyddiau Shakespeare.

Ond, doedd yr hen foi ddim yn sicr iawn o'i ffeithiau. Yn y ddrama *Julius Caesar*, mae un o'r cymeriadau yn cyfeirio at gloc yn taro. Rwan, doedd 'na ddim clociau taro am o leiaf fil o flynyddoedd ar ôl marw Julius Caesar.

Yn y *Winter's Tale*, mae o yn cyfeirio at long-ddrylliad oddi ar arfordir Bohemia. Doedd gan Bohemia ddim arfordir.

Yn ei ddrama *Merchant of Venice* chwaraeir y brif ran gan Shylock, yr Iddew. Ond fe sgrifenydd y ddrama ar adeg pryd na chaniateid i Iddewon ddod i Brydain.

Gohiriwyd perfformio ei ddrama *King Lear* rhwng 1788 a 1820 (yn ystod teyrnasiad y Brenin Siôr y Trydydd) am fod y ddrama yn cyfeirio at frenin gwan ei feddwl, ac mi roedd Siôr y Trydydd yn frenin gwallgof.

Fe briododd Wil ag Ann Hathaway yn 1582 a fynta ond prin ddeunaw oed, ac mae 'na dros 400 o ffilmiau sy'n gysylltiedig â'i ddramâu wedi cael eu cynhyrchu dros y blynyddoedd. Byddai, mi fyddai William yn filiwnydd sawl gwaith drosodd heddiw.

A dyma i chi gyd-ddigwyddiad. Fe aned William Shakespeare ar Ebrill 23, 1564.

Bu farw ar yr un dyddiad yn 1616.

Barn Tolstoy amdano oedd *'Crude, immoral, vulgar and senseless.'* Wil druan. Rhaid i mi gyfadde i mi ddod yn fwy o fêts hefo fo ymhen blynyddoedd ar ôl i mi droi cefn ar y Cownti Sgwyl.

Pob hwyl i chi dros y gwyliau, ac os byddwch chi'n ymlacio ar ryw draethell unig yng nghwmni llyfr go ddifyr - mi fetia i nad un o ddramâu Wil fydd o.

Wil druan, ond roedd o'n dipyn o foi.

## Yr Ardd ym Mis Gorffennaf gan Wraig y Tŷ

Lawer blwyddyn yn ôl bu ffrind yn aros hefo mi a dyma hi'n dweud,

'Wyddoch chi beth sydd ar ôl yn eich gardd?'

'Beth?' meddwn innau, gan ddisgwyl cyngor go lew sut i wella pethau.

'Rhaid i chi gael mainc neu gadair i ddiogi ac edmygu eich gardd.'

Erbyn hyn mae'r fainc a'r gadair gen i, ac erbyn hyn amser gennyf finnau i fyfyrto, a beth a aeth â'm bryd yn ddiweddar oedd chwilio am enwau Cymraeg ar flodau. Mae llawer ohonynt yn mynegi mwy na'r enwau Saesneg.

Mae gan y rhan fwyaf o bobl *Hydrangea* o lawer lliw, ond beth ydi'r enw Cymraeg? Beth gwell na Tri lliw ar ddeg, ond geilw rhai hi yn Goeden Ddŵr o'r gair Hydro.

Dyna ichi'r llwyn *Forsythia*, y blodyn melyn hardd sy'n blodeuo yn y gwanwyn. Mae'n cael ei alw ar ôl dyn o'r enw Forsyth, ond byddaf fi'n ei galw Y Wialen Aur. Dyna'r llwyn o flodau melyn hardd sy'n blodeuo yn yr haf o'r enw *Hypericum*, ond Rhosyn Saron fyddaf fi yn ei galw gan fod yna blanhigyn bach arall o'r un enw.

Wrth gwrs, mCae Rosa yn gwbl glir fel Rhosyn. Daeth ffrind yma a dweud iddi gael math o rosyn o'r enw Gwyneth Jones. Mae yna gannoedd o wahanol rai. Dim ond wedi cael ei gymreigeiddio mae'r *Lilac* yn Lelog. Mae llawer o lwyni heb gael enw Cymraeg arnynt.

Soniaf am y blodau mwyaf cyffredin. Ondi ydyw Llygad y Dydd yn mynegi mwy na *Daisy*, gan y bydd yn cysgu yn y nos? 'Hen estron gwyllt o Ddant y Llew'; blodyn digon del yw Dant y llew. Un arall o'r teulu *Michaelmas Daisy*, Ffarwel Haf sy'n llonni'r ardd yn yr hydref. Blodyn Mihangel am *Michaelmas Daisy* neu gelwir y *Chrysanthemum* hefyd wrth yr enw yma. Beth am *Buttercup*? Nid yw'r garddwr yn hoff o hwn chwaith. Blodyn melyn, Blodyn Menyn, neu yn fwy cyffredin fe ddywaid y garddwr, 'Rhaid imi gael gwared o'r Crafan y fran yna, chwynnyn, ie, ond mae pob un yn flodyn.

Mwynhau'r ardd sy'n bwysig yr adeg yma o'r flwyddyn.

Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy

## BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



**D. P. OWENS** RHIWLAS

## GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO  
MOCHYN**  
AR GYFER POB ACHLYSUR



\* Cig o ffermydd lleol \* Partïon rhwng 40 a 400!

\* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

\* Efo salad hefyd os dymunwch

**DEWCS, MAE O'N FLASUS!**

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

## GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati



**BECWS ERYRI**  
Stryd Fawr, Llanberis 870491



## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB Y MAMAU. I derfynnu'r cyfarfodydd am y tymor trefnwyd noson Moes a Phryn yng Nghanolfan Hafan Elan, Llanrug nos Lun, 4 Mehefin. Dechreuwyd y cyfarfod trwy gael munud o ddistawrwydd er cof am Mrs Doris Pierce, cyn-aelod ffyddlon o'r gangen a fu farw ar 24 Mai.

Cafodd yr aelodau a thriolion Hafan Elan gyfle i brynu oddi ar y stondin ac yna cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Mrs M Latham, Mrs K Jones, Mrs S Hughes a Mrs M Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Mair Jones. Trafodwyd rhai materion gan Mrs Margaret Latham. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i blant y pentref yn eu arholiadau y tymor hwn. Dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn dechrau mewn swydd neu yn mynd i goleg y tymor nesaf.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Julie a Steven, 23 Dôl Afon ar enedigaeth merch, Leah, chwaer fach i Lloyd a Liam. CAPEL Y TABERNACL. Dydd Sul, Mehefin 3, ar Sul y Sulgwyn bedyddiwyd Ben, mab bach Michelle a Neil, Bon Marche, Llanberis, yna gweinyddwyd Sacrament y Cymun. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams gyda Cassie Thomas wrth yr organ.

CLWB Y PLANT. Pleser mawr yw gweld y plant yn mynychu'r clwb o Sul i Sul a rhai yn dod i oedfaon yr hwyr. Mae ein diolch yn fawr iawn i Cassie a Graham, nid yn unig yn y Clwb ar y Sul ond hefyd am eu gwaith yn ystod yr wythnos.

Yn ddiweddar mwyngaodd y plant eu hunain yng Nghanolfan Emanuel, Llandudno mewn Noson o Addoli a Gweddi. Hefyd aethant i Ruthun i Ddiwrnod Gweithgareddau ac ym mis Gorffennaf byddant yn mynd i wersylla am benwythnos i Nefyn. Hwyl fawr iawn iddynt.

GWEITHGAREDDAU. Yn ystod yr wythnosau nesaf trefnir taith

gerdded noddedig a, nos Wener, Medi 7 cynhelir Noson Chwedl a Chân. Ceir mwy o fanylion am y ddau weithgaredd yn nes ymlaen. YSGOL CWM-Y-GLO. Dyma ni bron ar ddiwedd y flwyddyn ysgol a llawer o bethau ar y gweill unwaith eto. Rydym yn croesawu dau blentyn newydd i'r ysgol - Jason Jones i Fl.5. Gobeithio y byddwch fel teulu yn hapus iawn yn eich cartref, Bod Elan. Hefyd mae Eva Perrin wedi dod atom ac wedi gwneud ffrindiau bach newydd yn y dosbarth Meithrin.

Anfonwn ein cofion at Mrs Rhian Jones, ein gofalwraig, sydd adref ar hyn o bryd. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well. Mae'n braf gweld Anti Christine y gegin yn well o lawer erbyn hyn.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fisoedd Mawrth, Ebrill a Mai oedd: Mrs Janet Taylor, Ms Heather Lowe a Delyth Roberts. Yna Miss Meinir Siân Thomas, Mrs Esme Jones a Mrs Ann Jones, ac wedyn Mrs Avril Jones, Mr Ted Roberts a Miss Ceri Ann Jones. Llongyfarchiadau i bawb.

Bydd plant Bl. 0, 1 a 2 yn cael mynd ar y trên bach o Gaernarfon i Waunfawr ac ymweld â Chanolfan yr Antur yno. Trefnwyd yr ymweliad hwn gan Mr Dafydd Arfon Jones a charem ddiolch yn fawr iddo. Yna bydd y babanod i gyd yn treulio diwrnod arall yn ymweld â Phili Palas ar Ynys Môn. Bydd yr Adran Iau yn mynd i Warrington i Fyd Gulliver.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw'r ymweliad â Glanllyn ac eleni aeth dau ar bymtheg o blant Bl. 5 a 6 yno gyda Mrs Jennifer Roberts, Llinos a Bethan. Diolch yn fawr iddynt am roi o'u hamser ac am fod mor ofalus o'r plant.

Aeth nifer fechan o'r plant i lawr i'r Gala Nofio yng Nghaernarfon. Diolch i bawb fu'n cystadlu a llongyfarchiadau arbennig i ddau frawd - Gethin a Dewi Wynn Jones ddaeth yn gyntaf ac yn ail yn yr un ras. Da iawn chi, hogial!

Da iawn hefyd pawb aeth i Fabolgampau'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Er na ddaeth gwobrau y tro hwn daliwch ati yn y dyfodol.

Bu Heather Lowe, mam Natasha, yn brysur iawn am ddiwrnod cyfan yn cael pob

plentyn i wneud llun ohono'i hunan ar gyfer argraffu llian sychu llestri. Bydd rhain ar werth yn fuan y tymor nesaf gyda'r elw yn mynd i Gymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol.

Gan fod noson Hwyl yr Haf wedi bod mor llwyddiannus y llynedd rydym am gynnal un arall eleni ar nos Iau, Gorffennaf 5. Ceir nifer o eitemau amrywiol gan unigolion a phartion - adrodd, canu a dawnsio a bydd paned a raffl yno fel arfer. Pris mynediad gydd £1 ac fe fydd croeso cynnes i bawb.

Bydd cyfle i rieni ddod i drafod gwaith y plant a chynhelir Mabolgampau'r Ysgol ar gae y pentref bnawn Iau, Gorffennaf 12 am 1.30. Yna nos Lun, Gorffennaf 16 bydd Helfa Drysor yng ngofal Mrs Sian Jones a Mr Arwel Hughes o Ddolafon i ddechrau am 5.30pm.

I gloi'r tymor mae disgo wedi ei drefnu gan rieni plant Bl.6 ar nos Iau, Gorffennaf 19. Yn ystod y prynhawn gwahoddir rhieni y plant hynny fydd yn gadael i ymuno gyda ni mewn gwasanaeth arbennig i ffarfelio â'r plant hynny.

## Gweithgareddau Gwyliau Haf yn Antur Waunfawr

Cyn i neb droi, bydd yn amser gwyliau'r haf unwaith eto a bydd plant y fro yn edrych ymlaen at gyfnod maith o ddyddiau hamddenol i'w mwynhau.

Beth am i rai ohonynt ddod draw i fwynhau awyrgylch unigryw Antur Waunfawr, ac i arbrofi gweithgaredd newydd? Mae cyfres o ddiwrnodiau ar gyfer plant wedi eu trefnu eleni yn ystod y gwyliau, gydag amrywiaeth o weithgareddau i ddiddori a difyrru. Bydd y dyddiau yn digwydd yn ystod yr wythnos 20 - 24 Awst.

Efallai fod rhai rhieni sy'n gorfod gweithio yn ystod y gwyliau yn edrych am rywle sy'n cynnig gweithgareddau mewn awyrgylch ddiogel, llawn hwyl i'r plant.

O gyfeiriannu (*orienteeing*) i grochenwaith, o adnabod adar i arlunio, bydd gweithgaredd at ddant pawb. Bydd y

Mae Bl. 6 wedi treulio un diwrnod yn barod yn Ysgol Brynrefail ac mae un arall wedi ei drefnu ar eu cyfer. Diolch i Mrs Gwenno Bebb a Mr Eifion Jones am eu croeso arferol. Dyma ein cyfle ninnau i ddiolch i'r plant hyn am eu cyfraniad i'r ysgol hon a dymunwn y gorau i Sonny, Llion, Gafin, Michaela, Stephanie, Kerry, Heather, Roxanne, Ceri Brymer a Victoria yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Gwnewch eich gorau yno.

Rydym hefyd yn ffarfelio â Ffion a Lowri Wyn Jones fydd yn ymuno ag Ysgol Penisarwaun ddechrau'r tymor nesaf. Maent eisoes wedi symud i fyw yno a dymunwn y gorau i'r ddwy chwaer fach gyda'u ffrindiau newydd i fyny'r lôn.

Diolch hefyd i bawb yn y gymdogaeth sydd wedi bod yn deyrngar iawn i ni eto ar hyd y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at gael eich cefnogaeth eto yn ein gweithgareddau y flwyddyn nesaf. Pob hwyl dros wyliau'r haf.

Cefnogwch  
ein Hysbysebwy

## Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan  
Petrol neu Diesel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed £££ ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



## SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218



## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**PLAID CYMRU.** Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cangen Llanrug a'r Cylch nos Fercher, Gorffennaf 11 am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa. Croeso cynnes i holl aelodau'r cylch.

**DIOLCHIADAU.** Dymuna Carolyn ac Alun, Y Berllan ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Mihangel ar Mehefin 2.

**MARWOLAETH.** Cydymdeimlwn yn arw â theulu Mrs Pugh, 14 Glan Moelyn a fu farw y mis hwn. Gwraig dawel oedd hi ond yn gwneud gwaith gwirfoddol heb stŵr. Bydd colled fawr i'r teulu i gyd.

Collodd Mr John Rowlands, Llys Forgan ei chwaer hefyd, ac fe anfonwn ein cydymdeimlad i chwithau a'r teulu.

**GWAELEDD.** Deallwn fod sawl un o'r pentrefwyr unai wedi bod yn yr Ysbyty neu yno ar hyn o bryd. Brysiwch wella i gyd: Mrs Hughes, 23 Hafan Elan; Mrs Nan Jones, Perthi, Ffordd yr Orsaf; Mr Robert Griffith, Orwig House; Mrs Bet Jones, Lyndale; Mr John Rowlands, Llys Forgan; Mrs Nesta Jones, 16 Hafan Elan.

Mae Mrs Catherine Owen, Erw Wen, Ffordd Glanmoelyn wedi mynd i Blas Pengwaith o'r ysbyty, ac mae Mrs Jenny Humphreys, Hafan Elan wedi symud i Blas Pengwaith hefyd.

**LLONGYFARCHIADAU – BABIS.** Ganwyd Medi Wynne ar Fehefin 10, merch fach i Martin a Caroline Jones, 6 Rhos Rug a chwaer newydd i Anest Mair. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Hefyd, fe anwyd Cara i Chris a Caryl, Elan Wen, Ffordd Glanmoelyn. Llongyfarchiadau mawr.

**CAPEL Y RHOS.** Llongyfarchion mawr i blant y Capel. Fe gyflwynodd y gweinidog, Y Parch Dafydd Hughes, 47 o dystysgrifau iddynt am lwyddo yn arholiad llafar yr Ysgol Sul.

**DYWEDDIAD.** Llongyfarchiadau mawr i Deian Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf ar ei ddyweddïad â Claire Johnson o Richmond, Swydd Efrog. Pob dymuniad da i chwi i'r dyfodol.

**YSGOL GYNRADD LLANRUG DERBYN GWOBR.** Bu disgyblion Bl. 5 a 6 gyda'u hathrawon yn paratoi safle ar y We yn dangos y gwahanol atyniadau yn y pentref a'r ardal o amgylch. Anfonwyd y gwaith i S4C er mwyn ei gynnwys mewn cystadleuaeth, ac yn wir i chi, ychydig ddyddiau cyn gwyliau hanner tymor derbyniwyd e-bost yn dweud fod y gwaith wedi bod yn llwyddiannus. Derbyniodd yr ysgol Gyfrifiadur Apple Mac a meddalwedd yn wobwr.


**CHWARAEON.** Ar Fai 25 aeth criw o'r disgyblion i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon i gymryd rhan yng Ngala Nofio Ysgolion Dalgylchoedd Caernarfon a Brynrefail. Gwnaeth yr ymgeiswyr ymdrech fawr a derbyniwyd lluo o dystysgrifau i'w cyflwyno.

Furfiwyd tîm pêl-droed 5 bob ochr merched Bl. 5 a 6 ac aethant i chwarae mewn cystadleuaeth yn y Ganolfan Hamdden, wedi ei threfnu gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru i hybu'r gamp. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda a dod i'r rownd derfynol ond yn anffodus colli wnaethant o 2 gôl i 0.

Bydd timau pêl-droed a phêl-rwyd o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadlaethau 'Tlws yr Eco' yn ystod y mis. Dymunwn y gorau i chi.

Bu aelodau'r Urdd yn cystadlu ym Mabolgampau Cylch yr Urdd nos Lun, Mehefin 18 a daeth Katie Williams a Lisa Williams, Bl. 6 a Gethin Green, Bl. 4 i'r brig yn eu cystadlaethau. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da iddynt pan fyddant yn cynrychioli'r Cylch ym Mabolgampau'r Sir nos Lun, Mehefin 25.

Ar Fehefin 7 aeth 18 o'r plant i gynrychioli yr ysgol yn Nhwrnament Tennis Ysgolion Cynradd Gwynedd yng Nghaernarfon. Wedi gêm galed daeth tîm y merched dan 11 i'r brig. Byddant yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn Nhwrnament Gogledd Cymru ym Mae Colwyn y mis nesaf. Gan nad oedd tîm i chwarae yn erbyn timau'r bechgyn na'r merched dan 8 maent hwythau hefyd yn mynd ymlaen i Fae Colwyn.



Tim Genethod Bl. 5 a 6 o'r Ysgol Gynradd. Enillwyr rhanbarth cystadleuaeth HSBC i ysgolion cynradd.

Dymuniadau gorau iddynt i gyd yno.

Mae'n amlwg fod amryw o'r plant yn cymryd diddordeb mawr ym myd chwaraeon ac yn ymarfer yn galed. Daliwch ati.

**POTIAU BLODAU.** Ymwelodd Catherine o Seiont Nurseries â disgyblion Bl. 4 i drafod sut i edrych ar ôl planhigion. Cafodd pob plentyn gyfle i blannu 'Betsan Brysur' a hefyd i addurno eu potiau. Bydd y planhigion yn eu potiau lliwgar i'w gweld yn Seiont Nurseries dros benwythnos 23-24.

**GWAITH THEMA.** Fel rhan o'n thema 'Mynd am Dro' bu disgyblion Bl. 1 a 2 ar ymweliad â Llanberis yn mwynhau gweld a thynnu llun rhai o'r atyniadau diddorol sydd yno. Roedd cerdded i fyny i weld Rhaeadr y Ceunant Mawr yn brofiad i lawer ohonynt! Daethant yn ôl i'r ysgol yn flinedig ond wedi mwynhau pob eiliad.

**GWIBDEITHIAU.** Mae gwibdeithiau diwedd y flwyddyn wedi cychwyn gydag ymweliad Bl. 5 a 6 â Chaerdydd. Bu'n wibdaith ddeuddydd brysur iawn gan ymweld â Pharc Treftadaeth y Rhondda, Amgueddfa Werin Sain Ffagan, Stadiwm y Mileniwm a'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae'n anodd dweud ai'r plant neu'r athrawon oedd wedi blino fwyaf pan gyraeddasant yn ôl am unarddeg o'r gloch nos Wener. Roeddynt wedi cychwyn ers hanner awr wedi chwech fore lau. Bydd y dosbarthiadau eraill yn mynd ar wibdaith cyn diwedd y tymor: gobeithia Bl. 3 a 4 fynd i Barc Antur Camelot; Bl 1 a 2 i ymweld â pharc 'Green Acres'; Bl Derbyn yn cael mynd i weld y Dinosauriaid ym Mharc Eirias a'r Dosbarth Meithrin yn cael trip ar y

trên i Waunfawr ac yn ôl i Gaernarfon am bicnic yng Nghoed Helen. Gobeithio y cawn dywydd sych.

**CYNGERDD.** Nos Iau, Mai 24 cynhaliwyd cyngerdd o holl weithgareddau'r Urdd yr Ysgol Gynradd. Dymunwn ddiolch i'r rheini a'r ffrindiau a ddaeth i gefnogi ac i Brifathro a Staff Ysgol Brynrefail am gael defnyddio'r neuadd.

**DYMUNA** disgyblion Bl. 6 ddiolch i Brifathro, Staff a disgyblion Ysgol Brynrefail am y croeso maent wedi'i dderbyn yno yn ystod eu deuddydd o brofiad newid ysgol. Mae pob un yn edrych ymlaen yn eiddgar i gael cychwyn eu gyfa yno fis Medi. Dymunwn ninnau bob hapusrwydd iddynt.

**DYMUNWN** longyfarch Mr Wyn Griffith, Bl.4 a'i briod, Bethan, ar enedigaeth eu merch fach. Ganwyd Gwenlli Morgan brynhawn Iau, Mehefin 14. Tybed a fydd Mr Griffith yn yr ysgol mor fore o hyn ymlaen?

**FFAIR HAF.** Bydd Ffair Haf yr ysgol yn cael ei chynnal eleni rhwng 1 a 4 o'r gloch brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 14. Bydd amrywiol stondinau, gemau a gweithgareddau i'r plant. Gobeithio y gallwch ddod i gefnogi.

**ANFONWN** ein dymuniadau gorau a'n cofion cynhesaf at Miss Lynch wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**GWYLIAU HAF.** Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf ddydd Gwener, Gorffennaf 20. Bydd chwe wythnos o amser i chwarae yn rhydd. Cymerwch ofal mawr ar eich beiciau a mwynhewch wyliau hapus a dedwydd.

**Wavell  
Roberts**

CIGYDD  
London House  
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574  
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!

**STEPHEN JONES**

† Trefnwr Angladdau  
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol  
Profiadol



**CASTELL BOWNSIO  
AR GYFER  
POB ACHLYSUR**

Down â fo atoch  
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782



## TAIR STROI FEICRO

Yn ddiweddar bu Mair Humphreys, Llanrug ar gwrs ysgrifennu yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy lle cyflwynwyd hi i gyfrwng newydd y stori feicro. Dyma dair ymgais ganddi i ysgrifennu stori fer yn arddull y stori feicro.

### Y Llun

Credai'r rhan fwyaf o'r pentref bod Sali lawer yn hŷn na'i chelfi yn ei siop 'Hen Bethau'.

'Mam, sgynnoch chi rywbeth i'w werthu i Sali Shop?' gofynnodd Lowri.

'Wel oes, fel mae'n digwydd,' a phrysuodd i'r 'stafell gefn - 'Sbïa, ma' hwn bob amsar yn ddigon i godi'r felan arna i.'

Syllodd y ddwy i wyneb rhychlyd, melyn hen wraig a'i gwallt cringoch, yn lluchio pêl risial i gyfeiriad ffenestr agored ar y dde i'r llun.

Daeth rhyw gryndod dros y ferch. Caedd ei llygaid am eiliad a rhoi'r llun yn frysio yn y bag sbwriel du.

'Pnawn da, Sali...' a thynnodd Lowri'r llun allan a'i roi hyd braich iddi.

'Ydi o'n werth rhwbath?' holodd wedyn.

'Ydi, ydi wir, 'merch i... tyrd at y cwpwrdd prês imi gâl talu iti.'

Dilynodd Lowri hi ac wrth iddynt ill dwy nesáu at y drych ar bwys y cwpwrdd, gwelodd Lowri hi ei hun... neb arall... yn syllu'n ôl arni.

'Arhosa hogan... arhosa... dyna ryfadd, un arall eto wedi dianc, be sy'n bod ar bobol? A gwenodd Sali wrth roi'r dyrnaid

o arian i'w cadw'n ôl yn y drôr llawn.

\* \* \*

### Bore

Dyma fore godidog! Clywaf ambell grawc brân a sua'r gwynt drwy'r goedlan. Diolchaf lawer. Mae popeth o'm plaid.

Medraf sawru'r blodau; mwynhau cwmnïaeth ffrindiau diddan; teimlo 'mhlant ar fy nglin a synhwyro hapusrwydd pobl. Diolch am fore arall i'w fwynhau.

Gwn beth yw enfys a chofiaf wynebau teulu a cheraint.

Y bore cyntaf wedi'r ddamwain oedd y gwaethaf - ni fydd yr un bore cyn ddued â hwnnw.

Wel, Sheba fach, tyrd rŵan, mae'n amser iti 'nhywys i adref.

\* \* \*

### Lilis Gwynion

Cerddai'r bachgen ysgol glandeg, pryd golau yn benisel. Roedd eisiau dianc o'r orymdaith - dianc yn ddigon pell o'r dwndwr a chrio llond bol. Roedd wedi ei cholli o'i blentyndod bron - cipiwyd hi gan y byd bryd hynny, ond mae'r byd eto yn tarfu ar eiliadau mwyaf dirdynol ei enaid ifanc.

Cyrhaeddodd ei sedd... eisteddodd i wrando... codi... eistedd eto a chodi... a chodi ei olygon a thrwy len o ddagrau mae'n darllen y lilis gwynion - 'M-A-M-I'

## Cefnogwch ein Hysbysebwy

### CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA  
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed  
Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verruca; Cyn a Chroen Caled;  
Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyliino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu  
07747 696267 (symudol)

## GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

# BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes  
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSTAFELL SNWCER. Rwyf yn siŵr ein bod fel ardal yn ddiolchgar iawn i Mr John Brenan, Afallon a Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol am fynd at i dacluso'r ystafell snwcer ac yna am fynd ati i gael carped newydd a'i roi ar y llawr. Mae'r ystafell wedi tacluso yn arw ac yn edrych yn garterfol iawn. Diolch i'r ddau am eu llafur cariad a'u diddordeb.

CYFARFOD PREGETHU. Fel y mae yn arferol bellach ers blynyddoedd, cynhaliwyd cyfarfod pregethu Sardis ar y Sulgwyn. Cafwyd dwy oedfa lewyrchus iawn a'r pregethwr gwadd oedd y Parch John Treharn o Gaernarfon.

TYMOR YR HAF. A hithau unwaith eto yn dymor yr haf, er nad yw y tywydd yn ymddangos felly, a'r tymor gwyliau wrth y drws a llawer un yn ymlacio ar ôl bod yn eistedd arholiadau, carwn ddymuno gwyliau hapus i bawb ac i'r rhai fydd yn gorfod disgwyl

canlyniadau eu haroliadau, boed iddynt dderbyn llwyddiant a fydd yn rhoi boddhad fel y bydd i bawb fwynhau eu gwyliau a gobeithio y bydd y tywydd yn wella.

CLWB ORWIG. Yn y cyfarfod olaf o'r clwb bu i'r aelodau fwynhau cyngerdd a Rhosfa gyda'r gerddoriaeth wedi ei pharatoi gan Jan Grey a Carol Home. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mr John Smith. Paratowyd cwis i'r aelodau gan Eve Braithwaite ac fe dderbyniodd pawb gopi, gyda'r atebion i'w gyrru i mewn. Fe fydd enw y buddugol yn cael ei gyhoeddi yn y cyfarfod nesaf. Oherwydd rhesymau personol bu i John Smith ac Olwen Smith, yr ysgrifennydd, ymddiswyddo. Etholwyd John Cambrell yn llywydd ac fe fydd yr ysgrifennydd yn cael ei ethol yn y cyfarfod nesaf. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Rose a John Cambrell a'r enillwyr oedd Olwen Smith a Terry Taylor.

## CEUNANT

SWYDD NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Siân Williams, Marvista ar ei phenodiad yn Ddirprwy Brifathrawes Ysgol Gynradd Corn Hir, Llangefni. Mae Siân ar hyn o bryd yn athrawes yn ysgol gynradd Maesincla, Caernarfon. Pob hwyl yn y swydd newydd.

ARHOLIAD GRADD.

Llongyfarchiadau i Siân Jones, Rhos y Grug ar basio arholiad gradd yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion at Robin, Hafod Owen sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Broadgreen, Lerpwl yn ddiweddar. Brysiwch wella.

TENIS. Llongyfarchiadau i Nia

Fflur Jones, Glasfryn am guro cystadleuaeth Tennis Gogledd Cymru dan 10 oed a gynhaliwyd ym Mhrestatyn ddiwedd mis Mai. Da iawn ti.

ARHOLIADAU. Pob hwyl i drigolion yr ardal sydd wedi sefyll arholiadau yn ddiweddar ac i'r plant fydd yn newid ysgol, mynd i'r coleg neu'n dechrau swydd newydd yn y dyfodol agos.

TRAFFIG YNG NGHEUNANT. Yn dilyn llythyrau at y Cyngor (unwaith eto) a chyhoedduswyd yn y wasg leol, gobeithio y bydd rhywbeth cadarnhaol yn cael ei wneud am y sefyllfa i leihau cyflymdra traffig yng Ngheunant.

## PAFILIWN RHYL

Nos Iau, Awst 2

**Glyn Owens**

yn cyflwyno

**Tony ac Aloma**

**Broc Môr**

**Chicas**

**Marc Evans**

Dechrau am 7.30

Tocynnau £7.50

Tocynnau ar gael drwy ffonio

(01745) 330000

neu Teithiau Peris

Trefnir bws gan Annette os bydd digon o alw



## Ar Ben Arall y Lein

Parhad o'r dudalen gefn

bwyllgor gwaith y gymdeithas yn cofio'n iawn ein ceisiadau i ymuno ag un o'r sefydliadau sy'n hybu'r fro, cael ein gwrthod oedd y canlyniad. Rydym yn ceisio gweithio gyda phawb er budd yr ardal. Os buasai'r mudiad yma wedi cyd-weithio â'r clwb efallai y buasent heddiw yn disgwyl i glywed a yw ein cais am arian Amcan Un wedi bod yn llwyddiannus. Ia, Cynllun Datblyu Pysgodfeydd Gwynedd yw'r cyntaf i gael ei ystyried. Mae'r rhan gyntaf am £435,000 a bydd swm sylweddol o hyn yn cael ei wario yn lleol. Tipyn o hwb i fusnesau'r fro.

Os bydd y rhan gyntaf yn llwyddiannus, mae dau ran arall i'r cynllun a'r rhain am symiau mwy o lawer, ac mae un ohonynt yn ymwneud â hysbysebu. Diolch i Adran Gynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd am lywio a chyfrannu at y cais, hefyd i Asiantaeth yr Amgylchedd, Parc Eryri a'r Cyngor Cefn Gwlad, ein partneriaid yn y fenter. Moeswers hyn i gyd yw: nid wrth swnian a chwyno mae cael pethau i ddigwydd ond trwy weithgaredd a chyd-weithio.

I'r rhai sy'n teithio'r fro mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen ym Mhen Llyn. Yn ogystal â thaclo'r safle mae glanfeydd newydd wedi eu cwblhau. Rydym yn disgwyl mainc a cherfluniau o bysgod ac ati eto ac yna bydd y cynllun yma wedi ei gwblhau. Diolchiadau yma i Gyngor Gwynedd drwy Fenter Ardal y Llechen ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Hefyd beth am y gwaith ar lannau Llyn Cwellyn ger Planwydd. Mae ffordd newydd a maes parcio wedi eu cwblhau ar lan y llyn. Hefyd harbwr a glanfeydd newydd i'r cychod yn ogystal â man parcio a mynediad arall i lan y llyn ger Chwarel Goch. Mae'r pwyslais yn y gwaith yma er hwyluso mynediad i'r anabl. Mae'r gwaith coed i'r droedfan newydd eto i'w gwblhau ond gobeithir cael agoriad swyddogol yn nechrau Gorffennaf. Diolch yma i Fenter Coedwigaeth, Parc Cenedlaethol Eryri ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Beth am y pysgota? Wel, mae'r Dywarchen yn 'sgota'n eithriadol o dda, gyda chanran pwysau'r brithyll sy'n dod i'r rhwyd dros 2 bwys. Ond, ar yr afonydd araf iawn yw oherwydd y sychder, ond mae rhediadau da o sewin yn ymddangos ar y Llyfni fel mae'r llanw yn rhedeg i mewn. Y cyntaf a glywais wedi ei ddal oedd i D. Jones o Gaernarfon - 'sgodyn 2 bwys.

Mae Llyn Padarn yn dal iddi yn dda, a'r argymhellion yn ardderchog. Mae ansawdd y dŵr yn dal i wella a thrwy hyn mae maint y torgoch yn lleihau, diolch i'r drefn. Y torgoch cyntaf i ddod i'r rhwyd oed i G. Hampson o Benllech rai wythnosau'n ôl. Cefais innau ddau yr wythnos diwethaf: tua 10 modfedd o hyd, fel y dylent fod. Clywais hefyd fod Dr Robin Parry, Llanberis yn cael hwyl arni hefyd ond rwy'n credu mai ei fab, Tomos, sy'n dal a'r tad yn derbyn y clod. Dyna a glywais i o leiaf.

Dyna ddigon am y tro, felly hwyl a fflag arni unwaith eto.

Huw P. Hughes

### CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun  
Ffôn: (01286) 871833

### DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)  
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

www.s4c.co.uk

# DEWCH I'N GWELD NI Taith Haf

Sadwrn 30 Mehefin  
Parti Ponty, Pontypridd

Llun-Sadwrn  
2-7 Gorffennaf  
Eisteddfod Llangollen

Sadwrn 21 Gorffennaf  
Sesiwn Fawr Doigellau

Sul 29 Gorffennaf  
Parc Gwledig Penbre

Gwener 3 Awst  
Gŵyl Caernarfon

Sadwrn-Sadwrn 4-11 Awst  
Eisteddfod Genedlaethol  
Sir Ddinbych a'r Cyffiniau

Mawrth-Iau 14-16 Awst  
Sioe Hwffordd

Llun 27 Awst  
Carnifal Aberaeron

Sadwrn 1 Medi  
Amgueddfa Werin Cymru,  
Sain Ffagan

**S4C**



# LLANRUG

## Newyddion Ychwanegol

**CYMORTH CRISTNOGOL.** Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, Mai 13-20 eleni casglwyd y swm o £1,030.31 ym mhentref Llanrug. Diolch i bawb am gyfrannu. Diolch i'r casglwyr am eu cymorth parod: Mr a Mrs Len Brooks, Mrs Siân Burston, Miss Llinos Davies, Mrs Doris Evans, Mrs Buddug Hughes, Mr Arthur Jones, Mrs Bessie Jones, Mr Hefin Jones, Mrs Jane Jones, Mr James Jones, Mrs Meirwen Lloyd, Mr Iolo Llywelyn, Mr a Mrs Martin, Mrs Bethan Owen, Mr Alf Parry, Mr Elwyn Parry, Mrs Helen Parry, Mr a Mrs Gareth Roberts, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Ann Thomas, Mr a Mrs Bob Thomas, Mrs Gwyneth Thomas, Mr a Mrs Cliff Williams, Mrs Eirian Williams, Mrs Gwenno Williams, Mr Gwilym Williams, Mrs Megan Williams, Mrs Menna Williams.

**CAPEL Y RHOS.** Mae chwe mis cyntaf yr Ysgol Sul wedi bod yn brysur iawn eto eleni gyda'r plant yn derbyn llawer profiad gwahanol.

Mae ffyddlondeb y plant i'r Ysgol Sul yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan y Gweinidogion sy'n ymweld â'r Eglwys i gynnal oedfa. Diolch iddynt am roi gair gyda gwers i'r plant o Sul i Sul.

Yn ystod mis Ionawr cafodd y plant eu Maes Llafur Cof a braf oedd gweld 47 wedi bod yn llwyddiannus wedi dysgu Gair Duw o'r Beibl ac o'r Llyfr Emynu yn yr Wyl Ysgolion Sul a gynhaliwyd eleni yn Siloam, Bontnewydd. Derbyniodd y plant eu tystysgrifau gan y Llywydd, Mr Geraint Lloyd Owen, Ffrwd Cae Du.

Mr Robert Wyn Roberts, hogyn o'r Bontnewydd oedd Arweinydd y Gân gyda Mrs Enid Williams yn cyfeilio. Thema'r gwasanaeth oedd 'Golau' ac yn cynrychioli Capel y Rhos roedd Lowri, Ffion Eleri, Ffion Angharad, Caroline, Dylan Lloyd ac Aled Rhys yn darllen adnodau pwrpasol. Cafwyd bore bendithiol iawn gan obeithio y cawn lond capel eto yn



*Dyma lun y criw cyn cychwyn adref gyda Gwydion arweinydd y cwrs, Robin, Elin a Morgan yn anffodus i ni 'roedd Bryn yn pregethu dros Glawdd Offa, felly dim llun ohono ef eleni. Nia dynnodd y llun.*

2002 fel sydd wedi bod yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mis Chwefror oedd mis y Chwaraeon Rhanbarthol. Er cael perfformiad penigamp gan bêldroedwyr Capel y Rhos nid hwy oedd yn cynrychioli'r Rhanbarth eleni. Ymarfer at y flwyddyn nesa rwan hogia.

Balchder mawr ddaeth i dîm pêl-rwyd genethod Capel y Rhos gan mai nhw oedd yn cynrychioli'r Rhanbarth yn Aberystwyth. Cafodd aelodau'r tîm darian i'w gadw. Ar Fai 30, yn gynnar am 7.30 y bore, cychwynnodd criw Llanrug am Aberystwyth, gan rannu bws gyda chriw Llanberis. Ar ôl chwarae'r gemau roedd popeth yn dibynnu ar y sgôr derfynol a Llanrug ddaeth yn ail eleni ond rydym yn ffyddiog eto am y flwyddyn nesaf.

Dymuna yr Ysgol Sul ddiolch i Miss Catrin Eleri Jones, athrawes yn Ysgol Gynradd Llanrug a Mrs Wendy Jones, athrawes ymarfer corff yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, y ddwy gyda chysylltiad agos â'r Ysgol Sul, am eu cymorth parod a'u hamser i'n

cynorthwyo i gyrraedd nôd cenedlaethol.

Mis Ebrill, un o uchafbwyntiau ein calendr oedd mynychu cwrs penwythnos yng Ngholeg y Bala. Eleni profiad newydd arall, gan fod Capel y Rhos a Capel Cysegr, Bethel wedi uno fel gofalaeth dan ofal Y Parch Dafydd Lloyd Hughes, oedd mynd yn gytun ar y bws ar brynawn Gwener a dod yn ôl ar brynawn Sul gyda mwy o wybodaeth am Dduw gan obeithio ei rannu ac eraill.

Bydd cant yn mynd ar drip yr Ysgol Sul ar Fehefin 30 i Gulliver's World, Warrington. Gobeithio y

cawn ychydig o haul.

Gorffennaf 15 bydd Sbri Ysgolion Sul yr Henaduriaeth. Eleni Capel y Rhos sydd yn trefnu felly dewch yn llu i Ysgol Brynrefail rhwng 1.30 a 4.30 y prawn. Bydd prynhawn o weithgareddau wedi eu trefnu ar eich cyfer.

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn bydd taith gerdded dan ofal Dafydd Whiteside Thomas.

Os oes unrhyw un yn awyddus i ymuno yng ngweithgareddau'r Ysgol Sul yna cysylltwch gyda Meirwen Lloyd neu Anne Jones. Pleser bob amser yw cael mwy i gynorthwyo yn y gwaith.

## Taith ar gefn beic o amgylch Lesotho

Y flwyddyn nesaf mae criw ohonom ni'n bwriadu seiclo o amgylch Lesotho yn Neheudir Affrica i godi arian i'r wlad. Dolen Cymru sy'n hyrwyddo'r daith, sef y mudiad gwirfoddol sy'n hybu cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho. Taith 10 diwrnod o ryw 400 milltir fydd hi, mewn gwlad digon mynyddig, sy'n eithaf tebyg i Gymru o ran maint a thirwedd. Y beicwyr eu hunain fydd yn talu costau'r daith, felly fe fydd yr holl arian sy'n cael ei gasglu'n

mynd yn uniongyrchol i wahanol achosion yn Lesotho, gan gynnwys ysbytai ac ysgolion.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â ni (ar gefn beic!), neu os hoffech gyfrannu at yr achos, cysylltwch â Dolen Cymru ar y ffôn (01248) 372879 neu gydag e-bost: dolencymru@btinternet.com i gael mwy o fanylion. Neu dewch draw i'n gweld ni yn stonin Dolen Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.



*Tim pêl-rwyd Capel y Rhos ar ôl derbyn y canlyniad yn Aberystwyth.*

**Peidiwch gori ar stori.  
Anfonwch hi i'r ECO**

## antur WAUNFAWR

Y Ganolfan Waunfawr

**nos Fawrth, 3ydd Gorffennaf, 7.30 y.h.**

**drama 'To Have and To Hold'  
gan Gwmni Hijinx**

Drama bwerus sydd yn ymwneud â pherthynas a chyfeillgarwch.  
Digwyddiad i bawb ond yn arbennig i rai ag anableddau dysgu.

tocynnau £2 i bawb

**nos Sadwrn, 14eg Gorffennaf, 7.30y.h.**

**Michael Harvey  
noson o straeon gwledydd y Celtiaid**

tocynnau £4 / consesiwn £2

am fwy o fanylion ffoniwch Antur Waunfawr

☎ 01286 650 721  
www.anturwaunfawr.org

ANTUR  
WAUNFAWR



## Rhith Ynteu Rhybudd?

Harddwch llesmeiriol, nad oes mo'i gyffelyb yn y byd, yn ôl rhai, a ddenodd Griff Roberts o Lanrug yn blygeiniol un bore oer ym mis Mawrth eleni i Ben Llyn i dynnu lluniau.

Gwyddom ni drigolion y fro fod yr olygfa hon yn gallu newid o eiliad i eiliad yn ôl mympwy'r tywydd neu'r goleuni. Yr un harddwch cyfnewidiol yma a ddenodd gannoedd o artistiaid a ffotograffwyr ar hyd y blynyddoedd i'r fangre i ymarfer eu doniau, ac i ryfeddu at y canlyniadau. Ond mae'n amheus gen i i'r un ohonynt ryfeddu gymaint ag y gwnaeth Griff.

Ar ôl derbyn y lluniau o greigiau Fachwen a Brynrefail yn ôl gan y datblygwr fe'i syfrdanwyd. O droi un llun ar ei waered sylwodd ar ddau lygad oeraidd yn pefrio ac yn sylu'n syth arno, fel pe baent yn codi o ddyfnderoedd tywyll y llyn. Ymddangosodd siâp pen fel petai wedi ei rannu o'r en i'r coryn gan lafn cledd.

Ysgwn i, o edrych yn graff ar y ddau lun yma, a welwch chi'r ddrychiolaeth? Os drychiolaeth hefyd. I'r amheuwyr neu'r sinig - twyll natur ydyw. Ond i eraill mwy emosiynol, ac o bosib ofergoelus, a oes arwyddocad mwy sinistr neu bellgyrhaeddol yn llechu rhwng dyfnderoedd Llyn Padarn a chreigiau hynafol iawn Fachwen a Brynrefail. Yn y cefndir gwelir Elidir Fach a rhan o gwm Marchlyn, un o'r manau hynny a gysylltir ag ogof Arthur. Yno, yn ôl traddodiad, y dychrynwyd bugail y Rhiwen gan filwyr y brenin yn deffro o'u trwmgwsg! 'A ddaeth y dydd?' oedd eu cri ddychrynlyd, cyn mynd yn ôl i gysgu.

Ai rhith ynteu rhybudd yw'r llun felly? Yn ddyddiol bron clywir ddarogan fod tranc yr iaith Gymraeg ar y gorwel: fflangellwyd Seimon Glyn gan ei genedl ei hun am feiddio



cyfeirio at beryglon mewnlifiad; anwybyddwyd ein hawliau i fynegi ein hunain fel Cymry ar ddogfen y Sensws; gwaharddwyd ymddangosiad y Ddraig Goch ar blatiau rhifau ceir... a mwy, a mwy, a dim ond llond dwrn o'r genedl sy'n fodlon sefyll dros ein hawliau, a gwneud hynny'n gyhoeddus. Ai un o farchogion dewr y Brenin

Arthur sydd yma yn gwarchod y gwerthoedd neu yn annog mwy i'r gad, ynteu adlewyrchiad ydyw mewn gwirionedd ohonom ni y Cymry pwdr sy'n

*Dyma'r llun gwreiddiol*

llechu tu ôl i'r cledd ac yn gwbl fud? A hoffai rywun fynegi barn?

### GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG  
*ar gyfer eich  
holl anghenion*

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

**(01286) 870814**



**ORIEL  
CWM**  
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math  
ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol  
Arddangosfa o luniau  
gwreiddiol gan  
Artistiaid Lleol  
Richard S. Humphreys

**SPAR**


**Y STORFA  
LLANRUG**

(Richard a Meirwen  
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch cartref  
yn ardal Llanrug



*Ai dyma'r rhybudd?*

**GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO**  
24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

**PLUM24CYM**

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm  
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR  
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



## CD Newydd



Ar Fehefin 1 fe ryddhaodd Gwacamoli eu CD ddiweddaraf. Enw'r record yw *Clockwork* ac fe'i rhyddhawyd ar label *TOPST*, sef label y grŵp eu hunain. Mae'r CD yma yn dilyn llwyddiant eu CD ddiwethaf, *Topsy Turvy* a ryddhawyd yn 2000. Derbyniodd y CD ganmoliaeth yn y wasg ac mae'r grŵp ar hyn o bryd yn gigio ledled Cymru a Lloegr.

### Cyfarfod Blynyddol yr Eco

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr Eco ar nos Fawrth, Mehefin 12 yn y Ganolfan Newydd yn Sefydliad Coffa Llanrug. Er calondid i bawb roedd dwywaith cymaint wedi troi i fyny ag a wnaeth i gyfarfod y llynedd. Bydd adroddiad llawn o'r cyfarfod a chyfrifon ariannol yr Eco yn y rhifyn nesaf.

### A ddaeth y dydd?

Annwyl Ddarllenwyr

*Cyfarfod Cenedlaethol*

*Cymuned yn Neuadd Mynytho*

Yn ddiweddar sefydlwyd grŵp pwyso newydd gan griw o bobl sy'n pryderu am ddyfodol y Gymraeg; enw'r grŵp yw Cymuned, a'i ddiben yw ymgyrchu dros y Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Y prif faterion sy'n ein pryderu yw'r


mewnlfriad i ardaloedd Cymraeg, yr all-lifiad o Gymry Cymraeg ifanc yn bennaf o'r bröydd Cymraeg; a chymhathu mewnfydwyr yn ieithyddol.

Byddwn yn cynnal Cyfarfod Agored yn Neuadd Mynytho, Pen Llŷn am 2.00 o'r gloch brynhawn Sadwrn, 7 Gorffennaf. Hysbysebwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal am 11.30 y bore yn wreiddiol, ond rydym wedi newid yr amser oherwydd galwadau niferus gan bobl sy'n teithio o bell. Mae Neuadd Mynytho yn enwog gan y canodd R. Williams Parry amdani:

Adeiladwyd gan dlodi, - nid cerrig  
Ond cariad yw'r meini,  
Cyd-ernes yw'r coed arni,  
Cyd-ddyheu a'i cododd hi.

Ymysg y siaradwyr bydd Seimon Glyn, Bethan Gwanas a Myrddin ap Dafydd. Gofynnwn i bawb sy'n pryderu am ddyfodol ein hiaith a'n diwylliant ddod i'r cyfarfod pwysig hwn.

Yn gywir,  
Mared Roberts



**GWYNANT  
PIERCE**

Cynyrchion Coed:  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon  
**LLANRUG**

Ffôn: (01286) 650349  
(0589) 899901

Dydd Sadwrn  
Gorffennaf 28, 2001

Bydd

**BBC**

**RADIO CYMRU**

92 - 105 FM

yn darlledu'n FYW

# RAS YR WYDDFA

1.30 pm - 4.00 pm

**Grwpiau • Gwobrau  
Cystadlaethau  
Cerddoriaeth**

ac fe fydd

**Dafydd Du  
a Steven Edwards**  
(Y Weiren Gaws)  
yn rhedeg y ras





## e-bost 0 Awstralia

40 Bennett Street  
Moe  
Victoria 3825  
Australia

Cyfarchion i'r Eco

Fel un sydd yn edrych ymlaen am yr Eco bob mis, a bob amser yn mwynhau'r newyddion a'r erthyglau sydd ynddo ac hefyd yn ymdrechu i wneud y croesair, meddyliais ei bod yn amser i mi anfon gair o werthfawrogiad o'i gynnwys. Rheswm arall dros ysgrifennu ydi i anfon croesair mis Mehefin i mewn trwy gyfrwng e-bost.

Yn anffodus dydi'r Eco ddim bob amser yn cyrraedd yma mewn pryd i mi allu gorffen y pŵs a'i anfon yn ôl i gyrraedd cyn y dyddiau cau gyda'r 'post malwan'. Yn enwedig os bydd angen dipyn o amser i ddatrys ambell gliw. Felly os cyrhaeddith yn ddealladwy ac yn bydd yn dderbyniol, dyma groesair Mehefin.

Diddorol iawn oedd yr erthyglau yn y golofn 'Chwilota' gan Dafydd Whiteside Thomas yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf am Siop Catrin yn Ninorwig. I ddechrau, darlun Eirwyn Morris, hen gyfaill ysgol i mi a'r wybodaeth am eli llosg eira Catrin ac yna atgofion Ceridwen Williams.

Rydw i hefyd yn cofio siop Catrin, gan mai un o hogia Pen Draw oeddwn i cyn symud i Lanrug i fyw pan yn naw oed. Byddem ni, blant Pen Draw, yn cerdded heibio'r siop bob dydd o'r ysgol pan fyddai'r tywydd yn ffafriol. Cofiaf yn dda ambell waith brynu torth bach yno, rhyw dri neu bedwar ohonom, os byddai gennym geiniog neu ddwy rhyngom. Os yw'r cof yn iawn dwy a dimai fyddai torth fawr ar y pryd, felly rhyw geiniog a dimai fyddai un fach. Yna rhenid y dorth a'i bwyta ar y ffordd adref. Roeddwn ni wrth ein bodd yn gwneud hyn er fod gan fy mam siop, ac yn gwerthu bara, yn Dinorwig Cottages, rhyw ganllath neu ddau ar draws y cae o Bron Elidir y sonnir amdano yn rhifyn

Mehefin.

Yr adeg honno, yn ystod y rhyfel, byddai gweithwyr y chwarel yn cael cyflenwad o de a siwgr. Dydw i ddim yn cofio os oeddynt yn gorfod talu amdano ynteu a oedd perchnogion y chwarel yn talu. Ond o siop mam y byddent yn ei gael. Cofiaf yn iawn fel y byddai fy mam a ninnau'r plant yn llenwi bagiau o de a siwgr er mwyn i 'nhad fynd a nhw i'r chwarel. Gwneud y bagiau trwy blygu papur rownd blocyn o bren, eu llenwi a chau'r pen uchaf a gofalu na fyddai'r plygiad ar y gwaelod yn agor.

Bydd atgofion fel yna yn dod i'r cof yn aml pan yn darllen yr Eco.

Diolch am y papur. Pob hwyl i'r dyfodol a dlaiwch ati.

Yn gywir  
Hywel Griffith

*Diolch am y llythyr. Mae'n braf gweld rhai o'r fro sydd bellach ar hyd a lled y byd yn cysylltu â'r Eco, ac yn gwneud hynny drwy gyfrwng e-bost ar y we. Yn anffodus roeddem yn methu ag agor y croesair! Ond fe gyrhaeddodd y llythyr yn saff. Diolch amdano.*

## Aur Dan y Rhedyn

Dyna deitl rhaglen ar lafar ac ar gân yn portreadu peth o gyfoeth diwylliant gwerin bro'r eiteddfod a gynhelir yn y Babell Lân, Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau ar yr ail Sadwrn o'r mis: 11 Mehefin, 2001 am 12.30.

Braint a hyfrydwch neilltuol i mi yw cael trefnu a chyflwyno'r rhaglen hon yng nghwmni Côr Meibion Betwsyn-Rhos (Arweinydd: Nerys Jones); Parti Hogiau Bro Cernyw (Arweinydd: Tom Bryniog); a Gwilym Morris, Llanefydd. Y Cadeirydd fydd Eirlys Gruffydd, Llywydd Cymdeithas Llafar Gwlad a chyflwynir y rhaglen yn arbennig i ddiolch am fywyd a gwaith John Owen Huws (1952-2001), golygydd y cylchgrawn *Llafar Gwlad*. Croeso cynnes iawn i bawb.

Robin Gwyndaf



Mae Yvonne Templeman o Dan y Coed newydd ei henwi yn fyfyrwr y flwyddyn ar ei chwrs yng Ngholeg Menai am y 3ydd flwyddyn yn olynol. Mae Yvonne bellach wedi cael swydd yng Ngwesty Ty'n Rhos Seion

## MERCHED Y WAWR, RHANBARTH ARFON.

Roedd Neuadd Rhiwlas yn orlawn nos Wener, Mehefin 8 pan gynhaliwyd noson Rhannu a Blasu Crefftau. Cafwyd arddangosfa o waith aelodau wyth cangen: Caernarfon, Llanrug, Bethel, Y Groeslon, Bethesda, Tregarth, Dinas a Rhiwlas.

Cangen Brynaerau oedd pencampwyr y Llyfr Lloffion

gyda Llanrug yn ail a Bethesda'n drydydd. Eifion Harding oedd y beirniad.

Dymuna Bethanne, Rita a Gwenan (Swyddogion y Rhanbarth) ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Yn dilyn llwyddiant y noson gobeithir ailffurfio'r is-bwyllgor Celf a Chrefft ym mis Medi.

## G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO  
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030



STRYD FAWR  
LLANBERIS

(01286) 872777  
annette@peris.co.uk

- \* Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- \* Gwasanaeth dwyieithog
- \* Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- \* Trefniadau hedfan yn unig
- \* Penwythnosau yn theatrau Llundain
- \* Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
- \* Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- \* Bargeinion munud olaf
- \* Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch Annette neu Bethan

## H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys  
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



## Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor yn 'Angorfa', Llanberis nos Iau, 21 Mehefin gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y Gadair. Croesawyd Mr Selwyn Jones a Mr Selwyn Williams i'r cyfarfod a chafwyd anerchiad ganddynt ynglŷn â galwad Cymdeithas yr Iaith am yr angen am Ddeddf Eiddo.

Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau am y sedd wag ar Ward Padarn. Mae bellach dwy sedd wag ar y Cyngor a gofynnir i unrhyw un sydd â diddoreb mewn gwasanaethu gysylltu â'r Clerc neu unrhyw aelod o'r Cyngor Cymuned.

Adroddwyd fod trafodaethau'n parhau ynglŷn â dyfodol 'Angorfa'.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phroblem sbwriel ym mhentrefi Llanberis a Nant Peris, a phenderfynwyd gwahodd y Cynghorydd Trefor Edwards i'r cyfarfod nesaf i wyntyllu'r broblem. Adroddwyd fod Menter Fachwen wedi dechrau ar y gwaith o asesu cyflwr y meinciau cyhoeddus.

Yn dilyn pryder gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â bylchau mewn waliau a cherrig rhydd mewn rhai waliau'n gyfochrog â'r briffordd, derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad oeddent yn credu fod perygl, ac nad oeddent am gymryd camau i orfodi'r perchnogion i drwsio'r waliau.

Ystyriwyd dau gais cynllunio. Nid oedd gwrth-

wynebiad i osod estyniad i Bod Fair, Stryd Fawr, Llanberis. Penderfynwyd gwrthwynebu'r newidiadau a'r addasiadau yn Craig y Nos, Llanberis oherwydd y byddai uchder rhan o'r adeilad a'i wneuthuriad yn anghydnaws â'r adeiladau o'i gwmpas.

Mae'r hysbysfwrdd wedi ei osod yn y fynwent, a bydd y rheolau yn cael eu harddangos arno yn fuan. Adroddwyd fod y gwair wedi ei dorri a bod trefniadau wedi eu gwneud i glirio cerrig o'r fynwent. Derbyniwyd adroddiad ar gyflwr y cerrig beddi a chytunwyd i osod pedair carreg ar eu gorwedd er diogelwch ac i dderbyn asesiad am gyflwr un garreg arall. Bydd archwiliad misol yn cael ei wneud o gyflwr y cerrig beddi. Derbyniwyd tri thendr am waith cynnal a chadw'r fynwent. Trefnir i dorri'r gwair yn fisol o hyd hyd fis Hydref.

Mewn ymateb i gais gan Barc Cenedlaethol Eryri, cytunwyd i gefnogi'r syniad o barcio a theithio, wedi ei sefydlu yn Llanberis a Nant Peris, gyda galw am wasanaeth amlach gan y bysus yn gynnar yn y bore ac yn yr hwyr, ond llai o deithiau ganol dydd. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i'r bysus deithio drwy bentref Llanberis, ac nid ar hyd y ffordd osgoi.

Galwyd am i'r bylchau oddeutu'r ffordd i fyni'r Bwlch gael eu cau, ac i gyfyngu ar barcio ym Mhen y Gwryd. Nid oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor i gau maes parcio Pen Gorffwysfa.

Penderfynwyd gofyn i Gonsortium Busnes Llanberis fabwysiadu polisi dwyieithog, a rhoi'r sylw dyladwy i'r iaith Gymraeg.

Cyrtunwyd i dalu am ddau arwydd gwarchod cymdogol yn ardal Stryd Warden, Llanberis.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar 19 Gorffennaf a. 7 o'r gloch.

## Plant Ysgol Cwm-y-glo yng Nglanllyn



Leon, Llion, James, Gafin a Huw yn llafnrollo.



Elin a Kerry yn mwynhau'r pwll nofio.

**MAE'R  
SAMARIAID  
YN GWRANDO  
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR  
(01248)  
354646**


**GWYN JONES**

**FFENESTRI ERYRI  
GARTH ISAF, LLANRUG**

**(01286) 650764**

neu

**W. G. Roberts (Wil Korea)  
676741**



**BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES**

**FFENESTRI**

**DRYSAU**

**DRYSAU PATIO**

**PORCHES**

**BYRDDAU FFASIA**

**CLADIO**

**CONSERFATERIS**

## GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes  
a physgod.  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cŵn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

## Cefnogwch Fusnesau Lleol

**CEIR CYMRU  
BETHEL (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)**

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.



## Briwsion Byd Natur Yr Adeiladydd Papur

Ym mis Mai y flwyddyn 2001 daeth cyfaill o hyd i belen bapur, un twmffatlyd yr olwg, mewn man cysgodol ar ochr allanol pen uchaf drws cefn ei dŷ.

'Beth ydy o?' holodd yntau.

'Gad iddo ble mae o - mi wna i nôl y camera er mwyn tynnu llun,' meddwn wrtho. Fel petae hynny'n mynd i ateb popeth, gan roi caeaad ar y piser, a phen ar bob mwdwl a meddwl!

### Beth Ydyw?

Nyth gwenynen feirch ydyw (mwy nag un, lluosog gwenyn meirch). Y mae gwenynen feirch y coed (*Dolichovespula sylvestris* yw'r enw Lladin Bywydegol crand o'i go ar y pryfedyd dan sylw) yn 22mm o ran hyd ac yn nythu mewn ceudod coeden, twll mewn wal, neu hyd yn oed flychau nythu adar, fel ag a ddigwyddodd acw yn 1 Tan y Ffordd, Bethel, yn ystod 1997 ac 1998.

### Gwenynen Feirch

Dau bâr o adenydd sydd ganddi. Bydd Brenhines Gwenyn Meirch y Coed yn cysgu dros y gaeaf oddi tan risgl llac coeden o'i dewis. Fel y gwenyn mêl y mae gwenyn meirch hefyd yn casglu neithdar. Y gweithwyr fydd yn ei gasglu o'r blodau a dyf yn y meysydd a'r gerddi. Bydd y gwenyn meirch yn bwyta'r neithdar neu yn ei storio ar gyfer y rhai ieuanc, sef y larfa. Nid yw gwenyn meirch yn cludo paill mewn pocedi yn eu coesau fel y gwna'r gwenyn mêl.

Bydd y wenyne feirch, ar dywydd neilltuol o boeth, yn cludo dafnau dŵr yn ei safn er mwyn eu poeri ar y crwybr yn y nyth papur. Bydd hyn yn oeri tu mewn i'r nyth ac yn cadw'r cyfan rhag gorboethi. Gall poethder gormodol ladd y larfa a'r epil ieuanc.

### Gwenyn meirch

A dyma beth sydd gan gyn-frodor o Lanberis, sef J. Evans Jones i'w ddweud yn ei lyfr

diddorol *Rhamant y Gwenyn* a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1960: *Dywedir fod tua pedair mil a hanner o rywogaethau o wenyne gwyllt. Byw ar eu pennau eu hunain y mae'r mwyafrif ohonynt, ac ond ychydig wedi datblygu i drigo yn deuluoedd. Tebyg yw'r hanes ym myd y gwenyn meirch; o'r 170 o rywogaethau sydd ohonynt... nid oes saith yn byw yn deuluol a chymdeithasol.*

*Golyga bywyd cymdeithasol nid yn unig gyd-fyw fel teuluoedd ond hefyd gyd-weithredu. A datblygwyd y reddf gymdeithasol yn gryfach mewn gwenyn nag mewn unrhyw bryfed eraill.*

*Pwrpas gwenyn yw ffrwythloni blodau i fagu had a ffrwyth. Dywed gwyddonwyr y buasai'r byd yn wynebu newyn ymhen blwyddyn pe peidiai'r pryfedyd â chyflawni'r gwaith hwn.*

### Y Nyth

*Ym myd y gwenyn meirch a'r cacwn, ebe J. Evans Jones, y frenhines sydd yn chwilio am gartref newydd, yn dechrau adeiladu'r nyth, yn dodwyr yr wyau a deori, ac yn gofalu am ddigon o fwyd iddi ei hun ac i'r epil cyntaf, nes y deuant hwy yn eu tro i allu ei helpu.*

*Mae'r wenyne feirch hefyd yn gwneud celloedd chwe-onglog fel gwenyn y cwch, ond o ddefnydd gwahanol. Casgl hi ei defnydd o'r tu allan i'w chartref ac nid ei gynhyrchu yn ei chorff. Tebycach i bapur... yw ei defnydd hi, a gellir dweud mai hi oedd y gwneuthurwr papur cyntaf.*

'Ia, beth ydy' o?' holodd y cyfaill, a dyma fynd ati i ddatgelu rhai ffeithiau ynghylch y belen bapur ryfeddol a'i hadeiladydd ac erbyn y mis sydd ar ddyfod, gan fod gan y cyfaill berthnasau yn Awstralia, bydd hanes y wenyne feirch, drwy gymorth Eco'r Wyddfa wedi teithio gannoedd ar gannoedd o filltiroedd! Taith fer oedd gan y wenyne feirch o'r coed i gongl drws cefn fy nghyfaill.



Y nyth gwenyn meirch o Fethel.

Hedfannodd yno yn ôl a blaen am ddyddiau lawer, gan gludo'n ei safn ddarnau bychain a rwygodd oddi ar risgl coeden. Bu'n ddyfal adeiladu nyth, a chartref clud o'r newydd. Yno,

byddai'n magu teulu. Pwy a fuasai'n meddwl y byddai ei hanes yn cyrraedd eithaf pell yr hen gyfanfyd 'ma. Ia'n wir. Pwy fuasai'n meddwl!

Dafydd Guto.

## CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Rhodddwyd croeso gan y Cadeirydd i'r Cyngorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i gyfarfod agored blynyddol a gynhaliwyd ym Modurdy Gwalia Caeathro ar 30 Mai, 2001.

Codwyd sawl mater gan aelodau o'r cyhoedd a thrafodwyd y rhain yn rhwydd gan bawb oedd yn bresennol. Bu trafod am y cae chwarae newydd, cyflymder traffig ac am amledd torri glaswellt ym mhentref Caeathro. Trafodwyd tawelu traffig ar hyd lôn Pant Waun ac am y gwaith mewn llaw i ailadeiladu camfa ar un o'r llwybrau cyhoeddus yn Waunfawr.

Yng Nghyfarfod Cyngor y Gymuned a ddilynodd, etholwyd y Cyng Gwilym O. Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn 2001-02.

Rydym yn falch o glywed bod adroddiadau Adfywio Bro i'r ddau bentref yn barod, er nad oes dyddiad dosbarthu pendant wedi ei gadarnhau a'i drefnu bellach. Mi fydd gwaith cynnal a chadw yn dechrau cyn gynted â phosib ar y llwybrau cyhoeddus.

Yn anffodus mae baw ci ar y palmantau a'r lonydd yn broblem gyffredinol ac rydym yn archwilio ffyrdd i gefnogi cyd-wasanaeth ac i annog perchnogion cŵn i lanhau baw eu hanifeiliaid eu hunain.

Mae'r tîm gweithgar o

Gynghorwyr yn rhoi sylw manwl i geisiadau cynllunio yn y fro, ac yn taro sylwadau priodol i Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd pan fydd angen. Mae aml gais cynllunio ar y gweill ar unrhyw un amser ac yn gyffredinol rydym yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried amodau, er enghraifft, toeon llechi fyddai'n gweddu'r ardal.

Nid yw diffyg na chael rampiau tawelu traffig yn arbed damweiniau rhag digwydd yn hollol, rhaid atgoffa plant ac eraill i fod yn ofalus lle mae trafndiaeth ceir a lle mae ceir wedi'u parcio.

Siomedig iawn oedd clywed eto bod blerwch y sbwriel a fandaleiddio o amgylch y Ganolfan yn Wanfawr. Mae llawer o unigolion yn gweithio'n galed ac yn wirfoddol i greu cyfleusterau ardderchog i oedolion a phlant yr ardal. Mae'r Gynghorwyr yn cefnogi cadwraeth yr adeilad ac wedi cytuno i dalu costau cludo y sbwriel i ffwrdd.

Bydd y cyfarfod Cyngor Cymuned nesaf yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Waunfawr ar nos Iau, 19 Gorffennaf am 7 o'r gloch.

Gellir cysylltu â'r Clerc, Siân E. Thomas ar Ffôn: (01286) 650327 neu trwy ysgrifennu at Tŷ Ysgoldy, Waunfawr LL55 4YS.

## Fframia

**Gwasanaeth Fframio Lluniau**  
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth  
Dewis eang yn cynnwys:

**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW**  
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

## Am Offer Tŷ a Gardd...

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Dyma'r enillwyr am fis Mai:

£40: Judy Jennings, Ystorfa Tŷ Newydd; £25: Hilda Bradshaw, Castle View; £10: V.J. Davies, Bryn Gwyrfa.

Mehefin:

£40: R.J. Williams, Gwernydd; £25: E.W. Williams, 15 Bro Waun; £10: Sian Sturman, Pennant.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod diwethaf y Sefydliad a gynhaliwyd ar Fehefin 7 gyda Mrs Catherine Jones yn llywyddu yn absenoldeb Mrs Mair Williams, croesawyd Mrs Iris Evans fel aelod newydd. Mae Mrs Evans wedi dod i fyw i Stad Croesywaun o Gaernarfon. Darllenwyd llythyr misol y Ffederasiwn a nodwyd y materion o ddiddordeb i'r Sefydliad. Y wraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Katherine Dobson o Gardolbenmaen. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi gyda sleidiau, am yr amser y bu hi a'i gŵr yn gweithio yn Borneo. Diolchwyd iddi gan Mrs Pat Parry. Enillwyd y raffl oedd wedi ei rhoi gan Mrs Anne Williams, gan Mrs Catherine Jones.

Y mis nesaf ar Orffennaf 5, byddwn yn mynd am dro i Groesor, ac wedyn am de yng nghaffi 'White Barn' ym Maentwrog. Dim ond gobeithio y bydd y tywydd yn braf!

LLONGYFARCHIADAU.

DATHLU PEN-BLWYDD. Ar Fehefin 1 bu Miss Katie Roberts, 'Anti Katie' Stad Tref Eilian yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr i chi, ymlaen a chi at y 100 rwan.

Bu Llion Cynlas, Glanfa yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol iti.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Gwyneth a John, Llys Meredydd ar enedigaeth eu mab bychan, Mabon, brawd bach i Enlli.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, Mehefin 2, 2001 yng nghapel Croes-y-waun, priodwyd Sara Llwyd, merch Susan a Hywel Williams, Bryn Afon, Y Fali ag Iwan Arwel, mab hynaf Eurwen ac Eifion Davies, Cwellyn, Rhyd-ddu. Gwasanaethwyd yn y briodas gan y Parchedig Gwenda Richards,

Caernarfon gyda Miss Carys Hughes, Llundain wrth yr organ. Nia, Gwenan a Gwenllian oedd y morynion ac Iolo, brawd Iwan, oedd y gwas. Wedi'r gwasanaeth cafwyd gwledd a pharti nos ym Mhortmeirion - pryd y diddanwyd y gwesteion gan 'Celt'. Bydd Sara ac Iwan, sy'n athrawon yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, yn cartrefu ym Mryn Melyn, Waunfawr. Dymuniadau gorau iddynt.

Croesawn chi i fyw i'r pentref a gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yma yn ein plith.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Alvona Lewis, Stad Tref Eilian sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs Ilyd Williams, Bro Waun a Mr Richard Charge, Lliffon. Hyderwn y byddwch yn gwella o ddydd i ddydd.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr King, Ger y Nant, yn ei brofedigaeth o golli brawd.

YR URDD. Yn ystod y penwythnos bu deunaw o aelodau'r Urdd yn mwynhau eu hunain yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn. Dymunant ddiolch i Anti Marian, Hywel ac Aled am fynd gyda hwy i gadw llygad ar bethau. Bu nifer o'r aelodau yn cystadlu ym mabolgampau'r cylch nos Lun, Mehefin 18 a daeth rhai i'r brig. Byddant yn awr yn cynrychioli'r cylch ym mabolgampau'r Sir ym Mangor ar Fehefin 25. Pob hwyl i chi yno.

FFAIR HAF. Cynhelir Ffair Haf yr Ysgol nos Wener, Gorffennaf 13 am 6.30 o'r gloch ar fuarth yr ysgol. Bydd amrywiol stondinau ac atyniadau i'r plant. Dowch yn llw i gefnogi'r ysgol.

YR YSGOL. Eleni daeth tîm nofio yr ysgol yn fuddugol yng Ngala Nofio Ysgolion y Dalgylch a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon yn ystod yr wythnos cyn yr hanner tymor. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ar y nodyn llwyddiannus yma bydd Mrs Eryl Thomas, prifathrawes yr ysgol, yn ymddeol wedi deuddeng mlynedd o wasanaeth i'r ysgol a'r disgyblion. Hefyd, ar ôl bod yn athrawes yn yr ysgol am dros ddeng mlynedd ar

hugain, ac wedi meithrin y plant ar hyd y blynyddoedd, bydd Mrs Janet Ellis yn gadael i gael seibiant haeddiannol. Diolchwn iddynt am eu gwasanaeth a'u gofal difflino dros y plant a dymunwn ymddeoliad hapus i'r ddwy.

NEWID DWYLO. Fel y daw'r rhifyn yma o'r Eco o'r wasg bydd Mr a Mrs Jennings, y Siop a'r Post, yn trosglwyddo y busnes trosodd i ddwylo newydd. Diolch iddynt am eu cymorth yn y Post a dymunwn yn dda iddynt yn eu swyddi newydd.

DAMWAIN. Gobeithio fod braich Emma Chantrell yn gwella wedi iddi ei thorri wrth ddisgyn. Wnei di ddim dringo coed ar frys eto rwy'n siw'r, Emma.

Gobeithio hefyd fod Mrs Anne Jones, 4 Ael y Bryn yn gwella wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich.

MARWOLAETH. Roedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs Stella Lyle yn ddychryn i'r rhai a'i hadwaenai yn y pentref. Er ei bod wedi symud i fyw i Gaernarfon roedd wedi cadw cysylltiad agos â'i ffrindiau yma ac yn dal i fod yn aelod ffyddlon o'r eglwys. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu profedigaeth.

MENTRO ER MWYN ACHOS DA. Dyna wnaeth Nia Elin Jones, Stad Tŷ Hen. Bu'n un o'r rhai a 'abseiliodd' i lawr Tŵr Marcwis ar Ynys Môn er mwyn casglu arian i Cyswllt - cymdeithas sy'n helpu plant byddar yng Ngogledd Cymru.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ  
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR  
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD  
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)  
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)  
John Eifion (Penisarwaun)

### CDH

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

## EMYR JONES

PLYMAR A  
PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug  
CAERNARFON 673513  
Ffôn Symudol: 07774 496616



## CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCHE UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

## R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMBOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

## PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon  
at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON  
(01286) 673190



## Bistro

LLANBERIS  
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD  
COFIWCH AM EIN

**BeliBistro**

Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO  
nos Wener olaf pob mis



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYDYMDEIMLO. Fore Sul, 10 Mehefin, yn Ysbyty Gwynedd bu farw David Williams, Llanddwyn, Tŷ Capel y Cysegr. Ers symud i'r ardal o Lannau Merswy bu iddo ymroi i fywyd yr Eglwys a'r pentref. Bydd chwith ar ei ôl.

Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Cysegr ac Amlogfa Bangor ddydd lau, 14 Mehefin gyda'r gwasanaeth dan ofal y Gweinidog, y Parchedig Dafydd Hughes a'r Parchedigion R.E. Hughes a Gwynfor Williams.

Estynnir ein cydymdeimlad â Margaret Williams a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH. Dymuna Margaret Williams, Llanddwyn, Tŷ Capel y Cysegr a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i gyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth yn eu profedigaeth a'u galar.

MERCHED Y WAWR. I gloi'r gweithgareddau am eleni, ar noson hyfryd o haf bu nifer o'r aelodau ar daith ddirgel, a'r man gorffen oedd Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog. Yno yn disgwyl amdanom oedd y Rheithor, y Parchedig Idris Thomas, a chafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol yn olrhain hanes yr Eglwys hynafol, ac yna yn ein tywys o'i chwmpas. Roedd pryd blasus yn ein disgwyl yng ngwesty Stablau, Llanwnda a cafwyd gair gan y llywydd, Glenys Griffith cyn mynd ati i gyhoeddi enwau'r Pwyllgor am y flwyddyn nesaf.

Mair Read fydd y llywydd gyda Nan Rowlands, Delyth Williams, Nancy Williams, Alice Jones, Nora Parry, Sheila Roberts, Mary Evans, Ellen Ellis, Beti Owen, Rhian Hughes a Gwyneth Price yn ei chynorthwyo. Diolchodd Glenys i bawb am bob chefnogaeth dros y flwyddyn a aeth heibio a

dymunodd yn dda i Mair a'i phwyllgor am y flwyddyn i ddod. Enillwyr y raffl oedd Ceinwen Roberts, Rita Williams, Beti Owen ac Edwina Morris.

LLONGYFARCHIADAU i Elan Merrerid Rhys, Tyddyn Andrew Uchaf ar ennill y wobwr gyntaf yng Ngwyl Genedlaethol yr Urdd yn y gystadleuaeth Ffotograffiaeth dan 15 oed. Mae Elan yn aelod o Uwch Adran yr Urdd Bethel ac ar ei blwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail.

CANGEN YR URDD. Bu nifer o aelodau'r gangen yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn i fwrw'r Sul 15-17 Mehefin. Daeth y plant yn ôl wedi cael modd i fyw ac wedi mwynhau eu hunain yn arw ar y llyn, yn y pwl nofio ac ar y wal ddringo. Diolch i Mrs Mari Williams, Miss Nia Gwawr Jones a Mr Emyr Owen am eu gofal dros y plant.

YR YSGOL GYNRADD. Nos Wener, 29 Mehefin cynhelir noson Alfreco'r ysgol. Rwy'n siŵr y bydd yr ardal yn cefnogi'r noson fel arfer a gobeithio yn arw y ceir tywydd braf.

Nos Wener, 13 Gorffennaf cynhelir noson i ddathlu gwasanaeth Mrs Helen Southerland yn Meifod. Mae'r tocynnau yn mynd yn gyflym. Os am ddod cysylltwch â'r ysgol mor fuan ag sydd modd.

SBRI'R YSGOLION SUL. Cynhelir Sbrî Ysgolion Sul Arfon eleni yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ddydd Sul, Gorffennaf 12 o 1.30 hyd 4.30. Ceir gwybodaeth pellach yn yr Ysgol Sul yn nes at y diwrnod.

DIOLCH. Dymuna Gwen (Fachell gynt) a David Jones, Llanfrothen ddiolch o galon i gyfeillion, cymdogion a theulu am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Mehefin 18 cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Dawnsio llinell oedd gweithgaredd y noson yng nghwmni Mrs Vera Price a'i ffrind Falmai. Diolchwyd iddynt gan Mrs Gwenda Roberts. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Nerys Roberts. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Anita Long, oedd Mrs Valmai Owen.

Pasiwyd fel Sefydliad i drefnu stondin 'eliffant gwyn' fel rhan o'r gweithgareddau codi arian i Ganolfan Gymunedol Cwm-y-glo a gynhelir ar Fehefin 30. Trafodwyd y manylion terfynol ar gyfer y Sioe Ffasiynau a gynhelir dan nawdd y Sefydliad yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar Orffennaf 2. Bydd elw'r noson yn mynd yn rhannol tuag at Ysgol Pendalar a'r gangen leol o Sefydliad y Merched.

Bydd y trip dirgel blynyddol nos Lun, Gorffennaf 16.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr John McBryde, Bryn Llwyd yn ei brofedigaeth o golli ei fam ar Fai 27, sef y ddiweddar Mrs Dilys McBryde, gynt o Garneddwen, Corris.

DIOLCH. Dymuna Nia Oliver, Gors ddiolch i bawb sydd wedi ei helpu a'i chefnogi dros y tair mlynedd diwethaf. Mae'r diolch mwyaf i William, Megan a Cai a'i rhieni Dic a Myfanwy Parri - ni fyddai wedi bod yn bosib iddi ddilyn y cwrs yn y Coleg heb eu cefnogaeth hwy.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri nos lau, Mehefin 14. Cadeirydd y noson oedd Miss Alice Williams, Caernarfon. Cymerwyd at y myfyrdod gan Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth. Croesawodd y Cadeirydd ŵr gwadd y noson, sef un o'i chymdogion yn y dref, Mr Bobby Haines. Cyflwynwyd argraffiadau diddorol a hwyliog ganddo, drwy gyfrnwng darluniau hanesyddol o dref Caernarfon, a'u cysylltu â'i brofiadau fel un a fagwyd yn y dref. Talwyd gair o ddiolch ar y terfyn gan Mr Norman Williams, Godre'r Coed. Paratowyd lluniaeth gan Mrs

Megan Jones a Mrs Eleanor Jones. Sylwer fod newid yn nyddiad y cyfarfod nesaf yng nghwmni Mr John H. Hughes, Llanberis, sef nos lau, Gorffennaf 19 yn hytrach na'r 12fed fel yr hysbysir yn y rhaglen. Y Cadeirydd fydd Mr Emyr Williams. YR YSGOL SUL. Ar hyn o bryd mae'r plant yn brysur yn paratoi ar gyfer gwasanaeth Sul y Beiblau ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at Sbrî yr Ysgol Sul ar Orffennaf 15. Cynhelir y Sbrî yn Ysgol Brynrefail rhwng 1.30 a 4.30 pryd y ceir rhaglen gynhwysfawr o amrywiol weithgareddau.

TREFN OEDFAON.

Sul, 1: Cymanfa Henaduriaeth Arfon a gynhelir yng Nghapel Twrgwyn, Bangor am 6 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd Mrs Pat Jones, Chwilog a'r Organydd fydd Mr Gwilym Vaughan Jones, Bangor.

Cenir allan o'r DETHOLIAD 21000 - 2001.

Sul, 8: Mr Alun Rowlands, Bangor am 5.30 o'r gloch;

Sul, 15: Mr John H. Hughes, Llanberis am 5.30 o'r gloch;

22. Mr J.O. Roberts, Bethesda am 5.30

Sul, 29: Y Parch Eric Jones, Bangor am 10 y bore.

PLYGU'R ECO. Diolch i bawb a gefnogodd y gwaith o blygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Er symud y lleoliad i Ysgol Gymuned Cwm-y-glo cwblhawyd y gwaith mor brydlon ag erioed. Diolch arbennig i Mr Myrddin Jones am y trefnu ac i Mrs Mair Huws, y brifathrawes, am gael defnyddio'r ysgol.

**Cofiwch  
nad oes  
rhifyn Awst o'r  
Eco.  
Mae angen  
deunydd ar gyfer  
rhifyn Medi i  
law'r golygyddion  
erbyn Awst 27.**



Cymdeithas Y Plant (The Children's Society)

**Ymwelwyr annibynnol**

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?

Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth. Os oes gennych ddiddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar **0800 085 2274**



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI  
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
*Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris*

**HEN YSGOL GLANMOELYN  
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618** (dydd)


**(01248) 670081** (nos)



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD  
CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang  
o Welyau a 3P/Suites.  
Llenni Venetian a Llenni Roler.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc - allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher



## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

### YR YSGOL GYNRADD.

Pleser yw cyhoeddi y ganed mab i Einir ac Edwin yn ddiweddar, sef Ceiri. Fel holl staff yr ysgol, roedd plant dosbarth Miss Griffith wedi gwirioni. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu oddi wrth bob un ohonom. Edrychwn ymlaen i weld Ceiri yn dod yma am dro yn y dyfodol agos.

Pleser hefyd yw cael llongyfarch Miss Jên Jones a phlant Bl. 6 am eu llwyddiant yn y profion diweddar. Da iawn blant. Mae'r gwaith caled wedi bod o fudd. Llongyfarchiadau mawr Jên - cewch ddechrau ymlaen yn awr.

Mrs Rhian Jones o Lanrug sydd wedi ymuno â ni tra mae Miss Griffith ar ei habsenoldeb mamolaeth. Croeso atom Rhian, gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

**URDD, ADRAN BENTREF.** Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ym Mabolgampau'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen, nos Lun, Mehefin 18. Llongyfarchiadau brwd i enethod y tîm ras gyfnewid ar ddod yn drydydd. Diolch i bawb am ddanfôn a gofalu am y plant a helpu ar y noson.

**LLONGYFARCHIADAU** i Tracey a Jason, sy'n byw bellach yn Amwythig, ar enedigaeth mab bychan, Mathew.

Llongyfarchiadau hefyd i Annette a Danny ar ddod yn nain a thaid unwaith yn rhagor.

**CADW'N HEINI.** Bydd y Clwb Cadw'n Heini yn y Neuadd Gymuned yn parhau o 8 - 9 o'r gloch hyd y nos Lun olaf cyn i'r ysgol gau.

**GWELLA.** Gobeithio fod pawb sydd wedi bod yn sâl wedi gwella.

Ein cofion gorau at Amranwen, Gwyddfor a'n dymuniadau da am adferiad buan wedi triniaeth yn Ysbyty Lerpwl.

**DIOLCH.** Dymuna lanto Llwyd, 2 Tan y Ffordd ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r arhrigion ar ei ben-blwydd yn un oed.

**TRIP YR YSGOLION SUL.** Bydd y bws yn cychwyn o groesfan King am 8.00 y bore. Oedolion £9 a £4.50 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Gobeithio y ceir heulwen yn Southport.

### Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD.

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Plant yn y pnaun dan lywyddiaeth Mrs Bronwen Jones. Cafwyd Cymanfa Ganu hwyliog gyda'r nos dan arweiniad Gareth Glyn a chafwyd eitemau gan Barti Lleisiau'r Frogwy. Gwnaed casgliad at y Gymdeithas Feiblaidd yn y ddau wasanaeth.

**YSGOL SUL BOSRA.** Croesawyd Lowri a Ffion sydd wedi symud i fyw i Shambar o Gwm-y-glo. Gobeithio y bydd y ddwy yn hapus yn ein plith.

**SBRI YSGOL SUL 2001.** Cynhelir Hwyl a Sbri 2001 yn Ysgol Brynrefail bnawn Sul, Gorffennaf 15 o 1.30 hyd at 4.30 yng ngofal Henaduraieth Arfon. Bydd gweithdai Celf, Cerdd, Dawnsio Gwerin, Chwaraeon a Storiâu. Byddwn yn falch o help i gludo a nôl y plant.

**PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd:

1. Dylan Jones, Meillionydd;
2. Michael Jones, Tyddyn Perthi;
3. Brian Jones, Perthi.

Bwriedir cynnal Taith Gerdded Hanesyddol ar drydydd y Celtiaid, nos Wener, Medi 14 gan gychwyn o'r Neuadd Gymuned am 6.00. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Rydym yn hynod falch fod cymaint o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Neuadd Gymuned a da deall fod Band lleol yn ymarfer yn gyson yno a phob lwc iddynt. Gobeithio y byddwn yn ymfalchïo ynddynt fel ag yr ydym fel pentref yn Epiataff.

**EGLWYS SANTES HELEN.** Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion canlynol at Gronfa'r Fynwent:

Mr a Mrs A.L. Jones, 1 Tai Arthur; Mrs D. Jones, 4 Bryn Hyfryd, Cwm-y-glo; Mrs B. Pritchard, 10 Llys y Gwynt; Mrs Nan Jones, Caernarfon; Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion; Mrs R. Morris, 2 Llys y Gwynt; Mrs E.J. Williams, 2 Bryn Tirion; Teulu 3 Bryn Tirion; Mrs Gladys Wyn Davies, Caernarfon; Mrs R. Williams, Hyfrydle, Caernarfon; Mrs Eirlys White, 53 Maes Derw, Cyffordd Llandudno.

**YR YSGOL SUL.** Cynhaliwyd Gwyl Gorawl Eryri yn Eglwys



Plant Ysgol Sul Eglwys Santes Helen, Penisarwaun a gymerodd ran mewn Gwaith Llaw a Chelf at yr Wyl Gorawl yn y Felinheli. Cawsant y wobwr gyntaf a dyfarnwyd iddynt Gwpan Coffa Lowri Pritchard eto eleni.

Santes Fair, Y Felinheli ddydd Sul, Mehefin 10 am 2 o'r gloch a chynhaliwyd Gwasanaeth gyda Chymaif Ganu am 6.00 yr hwyr gyda Chôr Eryri, Llanrug. Yn ystod gwasanaeth y plant fe gyflwynwyd tystysgrifau i aelodau'r Ysgol Sul am eu gwaith llafar a medalau am fod yn gydradd ail am waith ysgrifenedig i Luke ac Iwan gan y Deon Gwlad, y Parch Philip Hughes.

Am y trydydd tro yn olynol enillodd yr Ysgol Sul Gwpan Coffa Lowri Pritchard, Llanrug am eu Gwaith Llaw. Diolchir i'r plant am gymryd rhan ac i'r athrawon am eu hyfforddi.

**CYLCHGRAWN HWYL Y SUL.** Llongyfarchiadau i Hanna Williams am ennill cystadleuaeth arlunio adran y plant hyn.

**DYDD GWEDDI Y RHODD.** Cynhelir Dydd Gwedd y Rhodd ddydd Sul, Gorffennaf 22 gyda Chymun Bendigaid am 10.30 a Gosber gyda'r pregethwr gwadd,

Y Parch Wyn Roberts, Caplan Ysbyty Gwynedd a hynny am 6.00 yr hwyr.

**GWEITHGAREDDAU'R CARNIFAL.**

Nos Lun, Gorffennaf 30: Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Mawrth, Gorff 31: Gyrfa Chwist.

Awst 1: Disgo i'r Plant a Dawnsio Llinell.

Awst 2: Mabolgampau, ac yn yr Eglwys, sgwrs gan y Parch Ganon Glyndŵr Williams, Penrhos-garnedd am y ffenest liw yn yr Eglwys.

Awst 3: Helfa Drysor.

Awst 4: Y Carnifal.

Awst 5: Cymanfa Ganu yn yr Eglwys.

Bydd manylion am yr amseroedd i'w gweld yn y papurau lleol. Gwneir apêl am gymorth yn ystod yr wythnos gyda'r amrywiol weithgareddau. Edrychir ymlaen am wythnos lwyddiannus eto eleni, gan hyderu y bydd yr haul yn tywynnu.



## YN YR ARDD!

**WIL G. ROBERTS**  
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

**GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL**



## Dylan Griffith

**Trefnwr Angladdau Annibynnol**

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: 871833 • Symudol: 07778 127394

## Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

# RACCA

PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

**870605**



Danfôn 7 diwrnod  
yr wythnos  
drwy'r fro

## Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

LLONGYFARCHIADAU i Gwena Roberts, Glanrafon ar ennill gradd City and Guilds mewn dylunio a thecstilau.

CROESO adref o'r ysbyty i Gareth Roberts, Glanrafon yn dilyn triniaeth ar ei goes. Gobeithiwn ei weld yn rhedeg o gwmpas y pentref yn dosbarthu'r Eco yn fuan!

PEN-BLWYDD HAPUS i Aled Davies, Tan y Bryn yn 21ain ar 7 Gorffennaf ac i Meirion Thomas, 10 Glanrafon a fydd yn 50 ar 16 Gorffennaf. Pob hwyl ar y dathlu! YR EGLWYS. Llongyfarchiadau i Theresa Jones, 6 Nant Ffynnon ar gael ei hethol yn Warden i'r eglwys yn dilyn ymdeoliad Mr Eric Thompson o'r swydd.

Cynhelir Gŵyl Flodau yn yr Eglwys ddechrau mis Medi pan fydd cyfle i bawb sydd â diddordeb greu arddangosfa flodau i addurno'r eglwys.

CARNIFAL. Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r pwyllgor, penderfynwyd y bydd carnifal yn y Nant eto eleni. Y dyddiad fydd Gorffennaf 27 a chychwynir ger Bro Glyder am 6.30pm. Bydd cystadlaethau gwisg ffansi a mabolgampau, castell neidio a stondinau amrywiol. Cynhelir y noson gwis arferol ar y nos Fawrth, Gorffennaf 24 am 8 o'r gloch ble y bydd cyfle i ennill gwobrau amrywiol. Dewch yn llu.

TY'N LLAN. Dymuna Anne a Jim Cumberton ddiolch i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth yn ystod blwyddyn gyntaf eu tenantiaeth yn y dafarn. Bu'n flwyddyn gymysglyd ar y cyfan a hoffent ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig dros fisoedd distaw y gwanwyn yn sgil Clefyd y Traed a'r Genau.

Bu'r ddau'n brysur iawn yn gweddnewid rhan o'r dafarn yn ddiweddar drwy osod bar, lloriau a lle tân newydd yn ogystal â phapuro'r waliau a gosod sawl llun diddorol iawn arnynt.

Mae'r tymor newydd yn dechrau prysuro erbyn hyn ac mae sawl noswaith o adloniant a difyrwch wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol agos. Bwriedir ail-gydio yn y noson i Ddysgwyr Cymraeg, a chynhelir cwis tafarn bob nos Fawrth.

Hyderir hefyd y bydd Coleg Menai yn cynnal cyrsiau rhad ac am ddim yn y dafarn bob nos Lun ar gyfer trigolion lleol a hoffent ailafael yn eu sgiliau Cymraeg, Saesneg neu Fathemateg, neu ddilyn cwrs 'Cyflwyniad i Brosesu Geiriau' a 'Cefnogi Plentyn yn yr Ysgol'. Cafwyd cyfarfod gyda Mrs Gwyneth Speke o Goleg Menai yn ddiweddar a bydd modd i bawb sydd â diddordeb ymuno yn y cyrsiau yn fuan.

DYMUNIADAU GORAU i ddwy ferch o'r Nant sydd yn priodi yn ystod yr haf. Bydd Renee Mullane yn priodi â Mr Robert Pritchard ar Gorffennaf 7 a Karen Price a'i dyweddi, Daniel, yn priodi yn Eglwys Sant Peris ar Gorffennaf 14. Pob lwc i'r ddwy ohonynt ar y diwrnod ac yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Nora Mullane sydd wedi cael llwyddiant mawr mewn cystadlaethau gymnasteg yn ddiweddar. Dal Ati! DIOLCH. Dymuna Jeni, Eilian, Elfyn, Pat a theulu'r diweddar Arthur Williams, Pennant ddiolch yn ddiifant am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl iawn.

Diolch hefyd i bawb a fu'n gofalu amdano yn Ward Aran, Ysbyty Gwynedd a Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont. Diolch yn arbennig iawn i staff Plas Pengwaith am eu gofal ohono ac hefyd i staff meddygfa Llanberis. Diolch o galon am y cyfraniadau hael tuag at Blas Pengwaith. Bu pob ymweliad, cerdyn a galwad ffôn yn gysur mawr i ni oll fel teulu.

Diolch i'r Parch John Pritchard a Ioan Wyn Gruffydd, Pwllheli am eu gwasanaeth gwerthfawr ac i Mr Gwynfor Jones, Llanberis am ei drefniadau trylwyr.

Dyma ran o deyrnged cymydog, Mr Dafydd Morris, Deiniolen, i Arthur Williams:

\* \* \*

Yn fwy na dim, un o hogiar'n Nant oedd Arthur Williams. Dyn ei gynefin a mab Yr Hafod, bugail a chwarelwr. Os oedde rhywun wedi byw ei fywyd yn gyfangwbl trwy gyfrwng yn iaith Gymraeg, Arthur Williams oedd hwnnw. Roedd ei werthfawrogiad o'i gymar a'i blant yn hynod yn ei olwg, ei deulu oedd ei drysor. Credai yn ddwfn mewn cadw'r hen draddodiadau.

Yn y Nant yr oedd ei fryd Ei braidd a'i bleser hefyd, Yn cadw'r hen draddodiad Parchu'r Sul a ffydd ei dad.

Un a oedd, fel finnau, wedi dilyn yr un llwybrau. Y llwybr cyntaf oedd bron o'r crud, sef dilyn y defaid, yr ail lwybr a ddilynasom oedd un o reidrydd, sef i'r chwarel i drin a naddu'r lechen las.

Fel bugail a chwarelwr Y syrthiodd ar ei chwant, Rhoi diwrnod i'r bonheddwr Cyn llithro'n ôl i'r Nant, Ac yna, wedi chwech o'r gloch Bugeilio'r defaid yn Bwlch Moch.

Ond heddiw:

Gadael teulu mewn trueni, Cefnu ar y fuchedd hon, Rhai yn gallu ymfodloni Eraill sydd yn teimlo siom

Trist yw trosi y teimladau, Chwalu'n chwilfrw yr hen drefn Pan oedd tad a mam a theulu Naill a'r llall yn gefn wrth gefn.

Ein Gweinidog a ddywedodd Y bod gobaith ble mae ffydd, Wedi derbyn yr ymadrodd Sych y dagrau ar dy rudd.

Yma heddiw ar ei antur I'r Gaersalem wen mae'r daith, Croeso cynnes fydd i Arthur. Duw yn dwyn i ben ei waith.



Ysgol Nant Peris

(rhes gyntaf): Tommy Closs; Arthur Thomas; Gwilym Ellis; Thomas Morris; Elidir Terfyn; William Morris. (ail res): Mr Griffith, Mair Carregwen; Sally Morris; Jennie May; Dora Elis; Maggie James; Margaret Humphreys; Bessie Griffith; Nancy Griffith; Miss Evans. (trydydd rhes): Gwilym Tynffynnon; Tom Peris; ? ; Gaynor Closs; Rita Gwastadnant; Olwen James; Nellie Blaen Nant; Winnie Tangadlas; Eluned Griffiths; Selina Morris; Nancy Closs; Olwen Roberts; Alun Phillips; John Williams; Arthur Williams. (pedwerydd rhes): William Tangadlas; Owen Humphreys; Tom Blaen Nant; ? ; Ifor Phillips; Glyn Williams.

Ychydig cyn diwedd ei oes dywedodd wrth ei blant: 'Bendith arnoch a diolch amdanoch'. a gaf innau ddefnyddio yr un geiriau am Arthur Williams wrth gloi'r prynhawn yma: Bendith arno a diolch am ei gyfraniad hael i'w deulu, y gymdogaeth ac i'w gymdeithas.

Peidiwch gori  
ar stori.  
Anfonwch hi i'r  
ECO

## DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Cymdeithas Chwiorydd Cefnywaun a Deiniolen ar ymweliad diweddar â Choleg y Bala.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Nos Lun, Mawrth 14 cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol yng Nghapel Libanus, Ciwt-y-bont dan ofal y Parchedigion Olaf Davies a John Pritchard. Dymuna pwyllgor y Cyngor Eglwys Lleol ddiolch i'r cyfeillion a fu'n casglu o dŷ i dŷ ac i bawb a gyfrannodd at yr Apêl eleni. Cyfanswm y casgliadau oedd £445.29.

YSGOL FEITHRIN Bydd Cyngerdd Mawreddog yr Ysgol Feithrin yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener, 13 Gorffennaf am 7.00 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

Cynhelir NOSON DISGO ar ddydd Mawrth, 10 Gorffennaf yn yr Ysgol Feithrin am 6.00 o'r gloch. Pris mynediad fydd £1.00 a

phlant yr ysgol feithrin am ddim. DYMUNA Iorwerth a Peri Evans ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a gawsant ar achlysur eu Priodas Aur ym mis Mai.

BEDYDD. Fore Sul, Mehefin 24 yng nghapel Ebeneser bedyddiwyd Sioned Mair Aeron Williams, merch Eyrn a Meinir Williams, gan y Parchg John Pritchard. Ganwyd Sioned, sy'n wyres i Hywel ac Eirlys Williams, 3 Pentre Helen a Hywel ac Eirlys Jones, Aberaeron yn Whittington, Llundain ar Fawrth 22 eleni yn 7 bwys ac 14 owns. Dymuniadau gorau i'r teulu bach, a llongyfarchiadau arbennig i Mr a Mrs Williams ar ddoed yn daid a nain unwaith eto.



## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

**YMDDIHEURIADAU.** Roedd 'newyddion Caeathro' ar gyfer yr Eco ym mlwch post Caeathro fore Mawrth 22 Mai wedi'i gyfeirio at gartref y Golygydd bedair milltir i ffwrdd yn Llanrug. Dim ond ar Fehefin 18 y cyrhaeddodd pen ei daith! Ymddiheuriadau felly am absenoldeb colofn Caeathro yn rhifyn mis Mehefin o'r Eco.

**PIGION MIS MAI.**

**Radio Cymru:** Diolch i Gwyn Williams, Tŷr Ysgol am rannu ei brofiad mewn toiled mewn gwesty yng ngwlad Kuwait.

**Bysus yr haf:** Daeth amserlen bysus yr haf i rym ar Fai 20. Dyma'r amserau o Gaernarfon: Bore: 7.25, 8.35, 9.45, 10.35, 11.45.

Prynhawn: 1.45, 2.35, 3.45, 5.05.  
Nos: 6.15, 7.25, 8.10, 11.20.

Bydd bysus i'r dref yn y bore am: 7.45, 8.25, 9.35, 10.25, 11.35.

Prynhawn: 12.25, 1.35, 2.25, 3.35, 4.45, 5.30, 6.05.

Nos: 7.20, 8.25, 11.55 (nos Wener a nos Sadwrn yn unig) Hefyd bydd gwasanaeth ar ddydd Sul a gwyliau banc. Gellir gweld yr amserlen llawn wrth y lloches i deithwyr bws ac ar hysbysfwrdd y pentref.

**Ffair y Gwanwyn:** Cynhaliwyd ffair lwyddiannus yn 'Y Ffestri' trwy garedigrwydd Jayne a Tim Lloyd a'r teulu. Enillwyr y raffl oedd (12) Heather Jones - Chwisgi a gwyliau; (26) Dilys Griffiths - Chwisgi; (155) Margaret Owen - Siocled; (165) Rhiannon Roberts - Llundun; (110) Huw Ceiriog - Tocyn petrol; (69) Betty Roberts - halen baddon.

Diolch i bawb - y rhoddwyr gwobrau, cuginwyr cynnyrch a chacennau, gwerthwyr rafflau, rheolwyr cystadlaethau a'r nifer fawr a aeth i'r noson. Fel canlyniad codwyd dros £300 at gostau addasu'r Capel fel addoldy a chanolfan gymunedol.

**Penblwydd hapus** i Rita Owen, Tai Glangwna a oedd yn 60 oed yn ddiweddar. Beth sy'n cadw genod Caeathro yn edrych mor ifanc?

**NEWYDDION MIS MEHEFIN CYNGOR CYMUNED.** Bu Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Waunfawr yn Ystafell Rheolwyr, Garej Glangwna. Roedd pedwar aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Un o'r pynciau oedd

y cwestiwn ynglŷn â fydd yr offer yn y cae chwarae newydd yn addas i dynnu'r plant hŷn, dyweder 9-13, oddi ar y stryd. Hefyd roedd cytundeb fod ymdrechion y Cyngor yn ceisio pwyso ar yr Heddlu a Chyngor Gwynedd i arafu'r traffic ar hyd y brif lôn a lôn Penrhos hyd yma heb lwyddo. Pwynt llosg arall oedd rhagfarn Cyngor Gwynedd yn erbyn trin yr ardal mwynderol o amgylch y sedd a'r ffôn fel ardaloedd tebyg yn Y Bontnewydd a'u torri'n aml, ac nid eu trin fel ochr y ffordd a thorri dim ond deirgwaith y flwyddyn.

Etholwyd Gwilym Williams fel Cadeirydd y Cyngor ar gyfer 2001/02 a Pat Parry fel Is-gadeirydd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi'r 'Strategaeth Gymuned' yn dilyn yr arolwg bro a bydd rhaid trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn trafod y crynodeb maes o law.

Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu'r estyniad arfaethedig i 'Cartref'. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais i godi estyniad i Glyndŵr, Stad Glyndŵr. Mae Garej Gwalia wedi cyflwyno cais cynllunio i ymestyn y maes parcio presennol, creu maes parcio newydd ynghyd â thirwedd, a ffordd fynedfa newydd o Ros Walia. Mae'r cais yn cynnwys tirwedd sylweddol a ffens ddiogelwch.

**GOR-YRRU TRWY'R PENTREF.** Yn ystod mis Mehefin (a mis Mai) bu'r Heddlu'n archwilio cyflymder traffig trwy'r pentref. Gyda lwc, ymhen amser, bydd PAWB yn parchu hawl trigolion Caeathro i deimlo'n ddiogel wrth gerdded, rhedeg neu yrru yn y pentref.

**HELFA DRYSOR.** Casglwyd £44 ar gyfer Cronfa Codi Canolfan i'r pentref fel canlyniad i'r Helfa Drysor. Enillwyr yr helfa oedd Iona a Huw Ceiriog, gyda Alun a Vera Roberts yn ail ac Eryl a Gwenno Jones yn drydydd. Yn olaf oedd Dilys a Bryn Griffiths! Aeth gwobr gyntaf y raffl i dŷ Mary Henderson, gyda'r ail wobwr yn mynd adre hefo Bethan Iwan a'r trydydd hefo Heulwen Atkinson. Diolch i Marian a Deiniol Huws am drefnu, i bawb am ddilyn y llwybr ac i'r sawl a roddodd wobrau'r raffl.



Aelodau Tim Dartiau Bryngwna gyda'u tlysau ar ddiwedd tymor llwyddiannus.

### GŴYL YR URDD.

Llongyfarchiadau i Dona Roberts, Erw Wen am gyrraedd rowndiau terfynol yn yr Unawd Gerdd Dant a'r Unawd Cân Werin yng Ngŵyl yr Urdd eleni.

**LLWYDDIANT TÎM DARTIAU TAFARN BRYNGWNA.** Unwaith eto mae tîm dartiau hogia Bryngwna wedi ailsefydlu ei hun fel un o'r gorau yn y cylch.

Gorfoleddodd y tîm eleni drwy ennill tair cwpan dan gapteiniaeth Bryn Griffiths, sef Cwpan Pencampwyr yr Ail Gynghrair; Pencampwyr Cwpan y 'Doubles' (ail gynghrair) a Phencampwyr Cwpan Wilkes (ail gynghrair).

Enillodd aelod o'r tîm, sef John Longshaw, gwpan am y perfformiad gorau gan gollu dim ond un gêm drwy'r tymor.

Daeth llond boc o gwpanau i Bryn Gwna y noson honno.

**LLONGYFARCHIADAU** i Arwel Griffiths, 4 Rhos Glan Gwna am ennill cwpan pencampwriaeth chwaraewr gorau'r tymor ym maes y dartiau. Mae Arwel yn dilyn camp deuluol wrth ennill y cwpan hon. Enillwyd hi gan Bryn Griffiths (ewythr), Alan Griffiths (ewythr) a Philip Griffiths (cefnder) dros gyfnod o flynyddoedd.

**NEWYDDION Y CAPEL.** Dyma batrwm y gwasanaethau tan wyliau'r haf:

Sul 24 Mehefin: 11.00 Ysgol Sul; 2.00 Parch Ronald Williams (A. Salem) gyda chyfarfod cynulleidfaol byr, ond pwysig, wedyn.

Sul, 1 Gorffennaf: 10.00 Parch Gareth Maelor, hefo bedydd. Gwasanaeth olaf yn y Capel fel y mae, tynnir llun o'r aelodaeth ar ôl y gwasanaeth. Dim Ysgol Sul - aelodau'r Ysgol Sul yn mynychu'r oedfa am 10.00.

Mawrth, 3 Gorffennaf: 6.30 Pwyllgor Meddiannau.

Sul 8 Gorffennaf: 11.00 Ysgol Sul. TYNFA MISOL. Dyma'r enillwyr am fis Mehefin:

£40: (40) Mary Henderson, 6 Erw Wen; £25: (25) Doris Muherfeld, 9 Tai Glangwna; £15 (7) Margaret Hensworth, The Barn; £5: (4) Michael Williams, Rhyddallt.

**CYFARFOD CYHOEDDUS.**

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Capel am 7.30 nos Fawrth, 3 Gorffennaf. Bwriad y cyfarfod yw:

1. Sefydlu Pwyllgor Codi Arian er mwyn talu am yr elfen gymunedol a fydd yn rhan o'r gwaith modern-eiddio ac addasu adeilad Capel Caeathro fel capel a neuadd.

2. Trafod gweddill syniadaeth adroddiad yr Arolwg Bro. Dosberthir manylion i bob aelwyd cyn y noson.

**YR ETHOLIAD.** Dros y Deyrnas Gyfunol nid aeth dim ond 59% o'r etholwyr i fwrw eu pleidlais yn yr Etholiad Cyffredinol. Yn Arfon roedd y ffigwr yn uwch - 62%. Yma yng Nghaeathro fe aeth 69% o'r etholwyr i'r Orsaf Bleidleisio yn y capel (nid yw'r canran yn cynnwys pleidleisiau trwy'r post).

**TRIGOLYN NEWYDD.** Croeso i Elan Jones, Erw Wen, merch newydd i Catrin a Dewi Jones.

**MIRI HAF.** Bydd Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro unwaith eto eleni yn cynnal prynhawn o Firi Haf ar ddydd Sadwrn, 28 Gorffennaf ar y Cae Chwarae. Bydd cyfarfod arbennig o'r pwyllgor am 8.00 o'r gloch nos Lun, 2 Gorffennaf er mwyn trefnu'r achlysur. Croeso i unrhyw bentrefwr droi i fyny efo'i syniadau newydd.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mary Owen, 10 Bryn y Gof ar gyrraedd 80 oed ar ddiwrnod hiraf y flwyddyn.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .



**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**GORSAF BETROL**

**Esso BERAN**

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd • Wyau  
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



# Timau Tlws yr Eco

Pêl-rwyd dan 11



Enillwyr - Llanrug

Pêl-droed dan 11



Enillwyr - Gwaun Gynfi



Ail - Bethel



Ail - Llanrug

Pêl-rwyd dan 9



Enillwyr - Dolbadarn

Pêl-droed dan 9



Enillwyr - Gwaun Gynfi




Ail - Bethel



Ail - Llanrug



## CROESAIR GORFFENNAF



I i lawr ydi'r ateb i bob cliw rhifol

### Ar Draws

1. 5 (8)
2. 6 (8)
3. Pobl sy'n rhedeg i gadw'n ffit (7)
11. Boi o'r dre, merch a llawer o lol yn fywgraffyddol (9)
12. Morgrug yn symud o'r grug i onnen farw (7)
13. Gall corn y glog fod yn greigiog (9)
15. Y dde neu'r chwith? (3)
16. A yw eich sain yn fwy dymunol? (7)
18. Y weithred o fusnesa (7)
20. Mab ei rhieni (5)
22. Prinder bwyd (5)
26. Cyfle grêt i ddal dryll (7)
27. 8 (7)
30. Aderyn benyw (3)
31. Listio i'r Fyddin
33. Troi'n llwch ar ddiwedd oes (7)
35. Rhwng rhan o Sbaen a'r môr (9)
36. Dianwadlwch swydd rad? (7)
37. Nid Peron fu'n gofidio! (8)
38. Dyn sy'n ymladd (8)

### I Lawr

2. Toi (5)
3. Yr wyt yn adnabod... (7)
4. Wrth ymyl ei gilydd (3,2,3)
6. Tir sy'n ymylu â Phen Llŷn ac Arfon (8)
7. Peiriannau sy'n treiddio o dan yr wyneb i ddynion gas? (9)
8. Un o'r talpiau bach ar gromosôm ym margin y nawdegau (5)
9. Afon yr Eiffiwr (3)
11. Gŵr cwerylgar (6)
14. Y crychyd y tebygodd Eifion Wyn y Sipsiwn iddo (5)
17. Heb fod yn hen (5)
19. Dig yw am anrhefn ei ymddangosiad (5)
20. Lluman (5)
21. Un sy'n creu o'r newydd (9)
23. 7 (8)
24. 3 (6)
25. Gweithio'n hwyr? (8)
28. Yn ddyledus (7)
29. Un sy'n ffafrio perthnasau (7)
32. A wna hon y bardd yn frenin tybed? (5)
34. 4 (5)
35. Diod o'r popty? (3)


## CALENDR GORFFENNAF

1. Sul: Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Twrgwyn, Bangor am 6 o'r gloch.
2. Llun: **BRYNREFAIL**. Sioe Ffasiynau Sefydliad y Merched yng Ngwesty Victoria, Llanberis.
3. Maw: **CAEATHRO**. Cyfarfod cyhoeddus yn y Capel am 7.30.
4. Mer: **WAUNFAWR**. Trip Sefydliad y Merched.
5. Iau: **CWM-Y-GLO**. Hwyl Haf yn yr Ysgol.
10. Maw: **DEINIOLEN**. Noson Disgo yn yr Ysgol Feithrin.
11. Mer: **LLANRUG**. Plaid Cymru. Cyfarfod Blynnyddol.
12. Iau: **CWM-Y-GLO**. Mabolgampau'r Ysgol.
13. Gwe: **DEINIOLEN**. Cyngerdd yr Ysgol Feithrin yn Ebeneser. **BETHEL**. Noson dathlu gwasanaeth Mrs H. Sutherland
14. Sad: **ANTUR WAUNFAWR**. Straeon y Celtiaid am 7.00. **LLANRUG**. Ffair Haf yr Ysgol Gynradd. **DEINIOLEN**. Trip Merched y Wawr.
15. Sul: **SBR'R YSGOL SUL** yn Ysgol Brynrefail am 1.30
16. Llun: **CWM-Y-GLO**. Helfa Drysor am 5.30.
19. Iau: **BRYNREFAIL**. Y Gymdeithas gyda Mr J. H. Huws, Llanberis.
22. Sul: **PENISARWAUN**. Dydd Gweddi a Rhodd.
27. Gwe: **LLANRUG**. Dydd Rhodd Eglwys Sant Mihangel.
28. Sad: **CAEATHRO**. Miri Haf yn y Cae Chwarae.
- 30 Gorff - Awst 5: **PENISARWAUN**. Gweithgareddau'r Carnifal.

## RHODDION

- £15: Mrs Jeni Williams, Pennant, Nant Peris.  
 £10: Llesiau Lliwedd, Llanberis; Mrs Helen Sharpe, Maes Padarn, Llanberis; M Pritchard, Gweledfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm-y-glo; Mr a Mrs S. Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug.  
 £5: Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon, Llanberis; Mrs Helen Morris, Oakfield, Ffordd

Capel Coch, Llanberis; Mrs Buddug Hughes, 5 Minafon, Llanberis; Mrs Nia Oliver, Gors, Brynrefail; Iorwerth a Peri Evans, Deiniolen; Mrs Katie Davies, Cilmeri, 5 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Sally Thomas a Rachel, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Carolyn ac Alan, Y Berllan, Llanrug.  
 £3: Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.  
 £1.00: Miss Monroe, Cynan, Llanrug; Mr Williams, 18 Rhos Rug, Llanrug.


  
**J.M.  
 JONES  
 A'I FEIBION  
 GWAITH  
 CERRIG  
 BEDDAU**

## Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286)  
 672898 (dydd)  
 676285 (nos)

## Croesair Gorffennaf



Derbyniwyd atebion i groesair Mehefin gan Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Moreen Lennon, Llanberis;

Margaret W. Roberts, Caernarfon; Nan Owen, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Eluned Jones, Trefor; I. Jones, Borth-y-gest; Alvona Jones, Prestatyn; Eirian Roberts, Llanrug; M.P. Jones, Clynnog; Ellen Pritchard, Garn-dolbenmaen; Olwen Jones, Bethel; Gwen Davies, Y Wirral; Rosemary Williams, Tregarth; Megan W. Jones, Bangor; Catherine A. Jones, Pencaerau; Jean Hughes-Jones, Pencaerau; E. Eirwen Roberts, Tregarth; Pat Owen, Caerfyrddin; Ceridwen Williams, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Elfed

Evans, Llanllechid; Olwen Owen, Llanberis; G. Gill, Bangor; E.E. Jones, Rhos-hirwaen ac enillydd y mis: H.O. Hughes, Tan y Graig, Penlon Llŷn, Pwllheli LL53 5SW. Llongyfarchiadau a £5 i chwi.

Gyda llaw, rwy'n falch o sylwi ar gynifer o ymgeiswyr newydd fel petai, y mis hwn, o ardaloedd pellennig megis Prestatyn, Y Wirral, Caerfyrddin ac mae'r enillydd, o Bwllheli, hefyd yn newydd.

Ar ôl cwblhau croesair Gorffennaf, gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Awst 27.



**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.  
 Bwrdd Pŵl ar gael  
 Bwydlen Bar a Restaurant  
 Trwydded lawn tŷ tafarn.



# CHWARAEON

## Pencampwyr



Tîm dan 15 Llanrug a enillodd Gwpan Gwyrfai.

## Un i'w Wyllo



Stephen Edwards o Glwt y Bont a oedd yn brif sgoriwr eleni i dimau Llanberis, Deiniolen a Ieuenticid Gogledd Cymru. Dipyn o gamp.

## Ar Ben Arall y Lein

Mae'r byd pysgota wedi deffro unwaith eto diolch i'r drefn. Mai 27 oedd y diwrnod pan godwyd y gwaharddiadau ar ein dyfroedd i gyd. Mae hyn yn golygu fod rhyw naw wythnos wedi ei golli o'r tymor, ond, i fod yn deg, mae wedi bod yn bosib 'sgota bron o'r dechrau ar rannau o'r Seiont, sef Crawia a Phont Rug oherwydd mai'r clwb yw perchnogion y tir ac am nad oes anifeiliaid yn pori yno. Rwy'n credu mai dyma'r unig bysgota afon oedd yn bosib trwy Gymru gyfan am rai wythnosau.

Er fod 'sgota yn bosib yma, siomedig oedd nifer yr aelodaeth y tymor hwn. Mae oddeutu 40 heb ymaelodi, ac mae'n boen fod y rhan fwyaf o'r rhain yn dod o fro'r Eco. Beth yw ystyr y gair 'Cymdeithas' deudwch? Pawb hefo'i gilydd mewn argyfwng yw un ystyr y gair rwy'n siŵr, ond wrth gwrs, fel'na mae y dyddiau hyn yntê.

Mae'n ffodus ein bod wedi prynu'r rhan fwyaf o'r dyfroedd neu ni fuasem yn medru talu'r

rhent. Ond rhaid cofio fod angen talu'n ôl i'r banc am dair blynedd aralli sicrhau'r eiddo i'r dyfodol. Heb gefnogaeth rhai o du allan i'r ardal, yn enwedig aelodau o du hwnt i Glawdd Offa, mi fuasai golwg reit ddu ar bethau. Nid cŵyn leol yw hon ond un gyffredinol i gymdeithasau eraill Cymru. Aelodau lleol wedi cilio'r tymor hwn. Rhaid bod yn wylidwrus, mae un clwb mawr arall yn y sir gydag aelodaeth fechan leol a chryn dipyn o ffwrdd yn gallu adrodd fod 100% o'u haelodau sy'n byw ymhell wedi ymaelodi. Beth yw'r ateb dwedwch?

Mae dau fis ers imi godi'r bensi i roi adroddiad, a'r amser hwnnw sylweddolais fod yr hen ddraenog yna yn bigog iawn tuag at rhyw fudiad yn Llanberis. Darllenais hefyd yn un o'r papurau newydd fod cwyno yn y pentref hwnnw fod busnesau yn methu cael arian i hysbsebu. Mae aelodau o

parhad ar dudalen 10

## Parhad o'r dudalen flaen

dracwrig FIFA. Diolch iddo, gwerthfawrogir ei gyfraniad i'r 'gwreiddiau'. Ein dymuniadau gorau iddo yn ei yrfa gyda'r bib. Diolch hefyd i Owain Siôn o Fethel am ei gyfraniad yntau gyda'r gemau dan 9. Mae defnydd athro Addysg Corfforol yn hwn yn bendant!

\*\*\*

Yng ngystadleuaeth y bêl-rwyd roedd 5 tîm yn y ddau oedran. Eto roedd y safon wedi gwella. Chwaraewyd y gystadleuaeth ar ffurf cynghrair. Bu rhwydo cyson a'r gemau yn llifo. Dan 9 aeth y tlws i Lanberis, gyda thîm Bethel 'A' yn ail.

Roedd hi'n agos iawn yn yr oedran hyn a gwahaniaeth 'rhwidi' yn unig a gipiodd y tlws i dîm Llanrug 'A' dros Fethel 'A' - 10 pwynt yr un. Bu torf dda yma hefyd yn cefnogi a diolch i Enid, Siân a Wendy am lywio'r gweithgareddau.

Noson flinedig ond hynod o lwyddiannus. Fe ddaw y flwyddyn nesaf o fewn dim. Yn sicr, ar y 'diwrnod hiraf' cafwyd llwyth o agweddau da.

Rhaid diolch i'r llu sydd mor barod i gynorthwyo, yn rhieni, hyfforddwyr, cludwyr, pobol y siop a chefnogwyr selog y noson. Diolch yn arbennig i Robin Williams a'i staff. Pob blwyddyn mae popeth yn barod. **Ardal yr Eco - da iawn chi!**

## Lluniau o Noson y Tlws



Rheolwragedd tîm dan 9 Bethel yn trafod tactics.



Mae 'na englyn - neu falle awdl hyd yn oed - yn fana'n rhywle!



Yr olaf i adael - Mr Robin Williams, prifathro Ysgol Llanrug a'i lais yn grug.

Lluniau o'r timau llwyddiannus ar dudalen 22